



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

## **Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)**

[Cyf: 20151030ASCCLIL -2]

# Cynnwys

---

1	Cefndir a chyd-destun	1
2	Ymchwiliad safonau mewn perthynas â chyrff cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)	2
3	Rhesymoldeb a chymesuredd Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg	5 6
4	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol	7
5	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd	34
6	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg	43
7	Casgliadau'r ymchwiliad safonau	44
8	Y camau nesaf	52
	Atodiad A – Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 3	53
	Atodiad B – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	57

## 1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'), yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Ar 24 Mawrth 2015, cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015<sup>1</sup> yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y safonau hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Mae pob cyfeiriad at safonau yn yr adroddiad safonau hwn yn cyfeirio at y safonau a bennwyd yn y rheoliadau uchod.

Wrth gyflwyno'r rheoliadau, nodwyd yr isod gan Lywodraeth Cymru:

*Dyma ddeddfwriaeth hanesyddol a fydd yn rhoi sylfaen gadarn i'r iaith yn y sefydliadau hynny y bydd gofyn iddynt gydymffurfio â safonau. Bydd yn annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd, boed hynny wrth dderbyn gwasanaethau neu fel gweithwyr yn y sefydliadau dan sylw.<sup>2</sup>*

Bu'r rheoliadau a gymeradwywyd ar 24 Mawrth 2015 yn sail ar gyfer ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg ac ymarferiad Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth er mwyn llunio asesiad effaith rheoleiddiol.

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i rym ar 31 Mawrth 2015, a hynny yn dilyn dadl a phleidlais yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

<sup>2</sup> <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/welshlangstandards/?lang=cy>

## 2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas â chyrff cyhoeddus: llywodraeth Leol (darparwyr tai cymdeithasol)

Yn unol ag adran 62 y Mesur, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 5 Mai 2015 at sylw personau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp canlynol o bersonau:

- Darparwyr Tai Cymdeithasol.

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp '**Darparwyr Tai Cymdeithasol**' yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Aelwyd Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Aelwyd Cyf)
- Bro Myrddin Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Bro Myrddin Cyf)
- Bron Afon Community Housing Ltd (Tai Cymunedol Bron Afon Cyf)
- Cadwyn Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf)
- Cardiff Community Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd)
- NPT Homes Ltd (Cartrefi CNPT Cyf)
- Cartrefi Conwy Cyf
- Merthyr Valleys Homes Ltd (Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyf)
- Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf
- RCT Homes Ltd (Cartrefi RCT Cyf)
- Coastal Housing Group Ltd (Grŵp Tai Coastal Cyf)
- Mid-Wales Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf)
- Cymdeithas Tai Cantref Cyf
- North Wales Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Gogledd Cymru Cyf)
- Linc-Cymru Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyf)
- Merthyr Tydfil Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Cyf)
- Monmouthshire Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Sir Fynwy Cyf)
- Cynon Taf Community Housing Group (Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf Cyf)
- Family Housing Association (Wales) Ltd (Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf)
- First Choice Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf)
- Grŵp Cynefin
- Grŵp Gwalia Cyf
- Hafan Cymru
- Hendre Group (Grŵp Hendre)
- Melin Homes Ltd (Cartrefi Melin Cyf)
- Newport City Homes Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Cartrefi Dinas Casnewydd Cyf)
- Pembrokeshire Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Sir Benfro Cyf)
- Pennaf Ltd (Pennaf Cyf)
- Rhondda Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Rhondda Cyf)

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

- Seren Group Ltd (Grŵp Seren Cyf)
- Taff Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Taf Cyf)
- Tai Ceredigion Cyf
- Valleys to Coast Housing Ltd (Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyf)
- Tai Calon Community Housing Association Ltd (Tai Cymunedol Tai Calon Cyf)
- The Cadarn Housing Group Ltd
- United Welsh Housing
- Wales & West Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Wales & West Cyf).

Bwriad Comisiynydd y Gymraeg oedd cynnal ymchwiliad safonau mewn perthynas â Newport Housing Trust Ltd yn ogystal â Grŵp Seren Cyf yn ystod y cylch hwn.

Ar ôl derbyn tystiolaeth pellach gan Grŵp Seren Cyf yn ystod yr ymchwiliad, cadarnhawyd bod Derwen Cymru Limited, sef Newport Housing Trust Limited gynt, wedi ymuno â Grŵp Seren Cyf ar 1 Ebrill 2014. Bernir felly nad yw Newport Housing Trust Ltd (Derwen Cymru) yn gweithredu fel person perthnasol bellach, ond yn hytrach, yn gweithredu fel rhan o Grŵp Seren Cyf. O ganlyniad, penderfynwyd nad oedd yn briodol i barhau i gynnal ymchwiliad safonau mewn perthynas â Newport Housing Trust Ltd (Derwen Cymru).

Cesglir bod unrhyw gyfeiriad (gan gynnwys casgliadau) at Grŵp Seren Cyf yn yr adroddiad hwn yn berthnasol hefyd i'r holl sefydliadau sydd yn ffurfio Grŵp Seren Cyf, gan gynnwys Newport Housing Trust Ltd (Derwen Cymru).

Cymeradwywyd cynllun iaith Gymraeg statudol diweddaraf Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf ar 7 Tachwedd 2006. Darparwyd drafft o gynllun iaith diwygiedig yn ystod 2009 a daethpwyd i gytundeb ar ffurf terfynol y drafft. Er hynny, ni gyflwynwyd fersiwn Cymraeg ohono, ac felly ni gafodd ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Er hynny, nodir bod Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf yn gweithredu'n unol â'r cynllun iaith Gymraeg diwygiedig, gan hefyd ddarparu adroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithrediad y cynllun hwnnw. O ganlyniad, defnyddiwyd y cynllun hwnnw wrth ddadansoddi ymrwymadau yn yr adroddiad hwn.

Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio, sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grŵp o bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio). Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 26 Mai 2015. Daeth i ben ar 18 Awst 2015.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan pob un o'r Darparwyr Tai Cymdeithasol a restrir uchod. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei gwblhau ganddynt. Casglwyd tystiolaeth hefyd gan y Panel Cyngori a'r cyhoedd.

Gosodwyd holiadur i'r cyhoedd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Pwrpas yr holiadur hwn oedd rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd nodi'r hyn roeddent yn teimlo sy'n rhesymol i'r personau perthnasol ei wneud a'i ddarparu yn Gymraeg, a hynny gan ystyried y gofynion ynghlwm wrth y safonau a bennwyd mewn rheoliadau ar 24 Mawrth 2015. Gosodwyd hysbysiadau yn y wasg genedlaethol yn ystod cyfnod yr ymchwiliad safonau yn tynnu sylw'r cyhoedd at yr holiadur hwn. Yn ogystal â hynny, gosodwyd fideo ar wefan y Comisiynydd er mwyn rhoi cyflwyniad i'r broses, ac i ddangos i'r cyhoedd sut y gallant ymateb i'r ymchwiliad safonau.

### 3 Rhesymoldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63(1) y Mesur, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25(1) yn afresymol neu'n anghymesur.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- (a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac
- (b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Wrth ystyried y cwestiwn o resymoldeb a chymesuredd, dylid nodi bod y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a wneir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- (a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- (b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd:

- (a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a
- (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r person. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

Wedi i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddi ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

### Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid oes un o'r meini prawf yn bwysicach na'u gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion; hybu) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd<sup>3</sup> dan sylw?
- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?

---

<sup>3</sup> Ystyrir y maen prawf hwn yng nghyswllt safonau cyflenwi gwasanaethau yn unig.



## 4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol

Derbyniwyd tystiolaeth gan bob un o'r Darparwyr Tai Cymdeithasol a restrir uchod. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys ymatebion i 199 o gwestiynau mewn holiadur, yn ogystal â thystiolaeth bellach a ddarparwyd yn dilyn ymholiadau dilynol.

Darllenwyd pob ymateb yn unigol a defnyddiwyd meddalwedd i gofnodi a dadansoddi'r testun ac i adnabod themâu cyffredinol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ymhlith swyddogion Comisiynydd y Gymraeg er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol yn rhan o'r ymchwiliad safonau, ynghyd ag ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol dan sylw.

Darperir yn yr adran hon ganran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol, sy'n cyfateb i'r safonau (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth y safonau ai peidio) ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol yn erbyn y safonau, dylid nodi nad oedd modd paru nifer o'r safonau mewn perthynas â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau, a hynny oherwydd natur fanwl y rheoliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl bod y personau perthnasol dan sylw yn ymrwmo neu'n cydymffurfio â'r gofyniad, ond nad yw hynny wedi ei ddatgan yn benodol yn eu cynlluniau iaith Gymraeg.

Rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bob person perthnasol a gaiff ei gynnwys yn y grwpiau o bersonau a nodir yn adran 4 yr adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa weithgareddau a wneir gan y personau dan sylw, pa weithgareddau y maent yn eu gwneud trwy'r Gymraeg ac i ba raddau y maent yn gallu cydymffurfio â'r safonau.

## Darparwyr Tai Cymdeithasol

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

#### **Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff Safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]**

Nododd pob un o'r 37 person perthnasol o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 25 person perthnasol (68%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan bob un ohonynt ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 83% o'r safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff.

Nododd 11 o'r personau perthnasol eu bod yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt ac nad oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch cydymffurfio â hwy, yn bennaf oherwydd mai dyna oedd y drefn bresennol ar gyfer gohebiaeth.

Mynegodd 12 o'r personau perthnasol nad oeddynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt, sef safonau 4 a 5. Nododd pedwar ohonynt mai yn dilyn cais a wneir i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg y byddent yn anfon llythyr safonol neu gylchlythyr yn y cyfrwng hwnnw. Y prif resymau a nodwyd ar gyfer y safbwynt hwn oedd galw isel tybiedig a chostau cyfieithu, argraffu a phostio. Mynegodd dau ohonynt bryder ynghylch oedi cyn anfon yr ohebiaeth oherwydd yr amser a gymerir i gyfieithu i'r Gymraeg.

Nododd 14 o'r personau perthnasol eu bod yn ystyried bod pob un o'r safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff yn afresymol ac anghymesur. Serch hynny, nododd pedwar y byddent yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg gan gadarnhau y byddent yn ateb yn yr iaith honno.

Mynegodd Hafan Cymru bryder ynghylch y risg o dorri cytundeb cyflenwi gwasanaeth yr oedd ganddynt ag awdurdod lleol pe byddai oedi yn yr ohebiaeth oherwydd cyfieithu. Dylid nodi bod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 wedi'u pennu ar gyfer sefydliadau yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Nodir yno ei bod yn ddyletswydd arnynt i gydymffurfio â'r safonau, p'un a yw eu gwasanaethau yn cael eu darparu ganddynt hwy eu hunain neu ar ran y corff gan drydydd parti o dan drefniadau a wneir rhwng y trydydd parti a'r corff.

Mynegodd Grŵp Gwalia Cyf bryder ynghylch cywirdeb cyfieithiadau ac ynghylch cyfrinachedd pan gaiff cyfieithwyr fynediad at ohebiaeth sy'n cynnwys data personol.

Lle y cyfeiriwyd at alw isel fel tystiolaeth dros afresymoldeb ac anghymesuredd gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt, roedd sail y safbwynt hwnnw yn amrywio, gan gynnwys data cyhoeddus, (h.y. ystadegau'r Cyfrifiad), data preifat (h.y. arolwg dewis iaith / proffil ieithyddol tenantiaid a phreswylwyr a gynhaliwyd ganddynt) a phrofiad blaenorol (h.y. nad oeddent wedi derbyn cais hyd yma).

**Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff  
Safonau ynghylch galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]**

Nododd pob un o'r 37 person perthnasol o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 25 person perthnasol (68%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 95% ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 66% o'r safonau ynghylch galwadau ffôn at gorff a chan gorff.

Er bod deg o'r personau perthnasol wedi nodi eu bod yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt, roedd dau ohonynt yn bryderus ynghylch eu gallu i gydymffurfio â safon 10 ar bob achlysur. Roedd dau arall o'u plith yn pryderu ynghylch ymarferoldeb cofnodi dewis iaith eu tenantiaid mewn perthynas â galwadau ffôn.

Mynegodd deg o'r personau perthnasol nad oeddynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud detholiad o'r safonau yn benodol gymwys iddynt, gydag amrywiaeth eang yn y safonau hynny. Ar y cyfan, roedd y personau hyn yn gallu ymdopi â galwadau cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd ond mynegwyd pryder ynghylch eu gallu i gynnig gwasanaeth Cymraeg tu allan i oriau craidd swyddfa yn ogystal ag ymarferoldeb cydymffurfio â safon 21.

Mynegodd Grŵp Seren Cyf eu bod yn bryderus iawn ynghylch trosglwyddo galwadau i siaradwyr Cymraeg yn dilyn cais i wneud hynny gan y galwr oherwydd natur arbenigol nifer o'u galwadau a'r arbenigedd penodol sydd ei angen wrth ymdrin â chleientiaid sy'n aml yn fregus iawn ac mewn trallod.

Nododd 17 yn rhagor o bersonau perthnasol nad oeddynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt. Nododd pob un o'r rheini fod y galw yn isel, p'un a oedd y casgliad hwnnw yn seiliedig ar arolwg uniongyrchol a gynhaliwyd, data am ddemograffeg yr ardal maent yn ei gwasanaethu neu ddiffyg profiad o alwyr yn mynegi eu dymuniad i siarad Cymraeg. Ymhellach, nododd y mwyafrif nad oedd ganddynt ddigon o staff â'r sgiliau angenrheidiol i gynnal sgwrs ffôn yn Gymraeg ar hyn o bryd. Nododd dau mai drwy wasanaeth cyfieithu allanol y byddent yn cynnal y gwasanaeth, gyda Chymdeithas Tai Sir Benfro Cyf yn nodi mai drwy lythyr yn unig y caiff eu defnyddwyr gwasanaeth gysylltu â hwy yn Gymraeg.

Mynegodd sawl person perthnasol bryder ynghylch ateb y ffôn gyda chyfarchiad Cymraeg yn unol â'r gofyniad yn safon 8. Roedd Grŵp Tai Coastal Cyf o'r farn y byddai cyfarch galwyr yn Gymraeg yn lleihau nifer y galwadau y gallent eu derbyn; tra bod Grŵp Gwalia Cyf yn ystyried y byddai staff â gallu isel dan anfantais o orfod delio â cheisiadau gan bobl i siarad Cymraeg. Nododd Cartrefi CNPT y gall cyfarch galwyr yn ddwyieithog arwain at gynnydd mewn ceisiadau am wasanaethau Cymraeg ac na allent warantu bod rhywun ar gael i siarad â'r galwr yn eu dewis iaith. Nododd The Cadarn Housing Group Ltd iddynt dderbyn adborth fod cyfarch galwyr o Gymru ar eu prif rif ffôn yn Gymraeg yn amhoblogaidd ac roeddynt o'r farn ei fod yn arfer amhriodol ar gyfer llinellau mewnol.

**Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol**

**Safonau ynghylch cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]**

Nododd pob un o'r 37 person perthnasol o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 12 person perthnasol (32%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 97% ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 73% o'r safonau ynghylch cyfarfodydd a gynhelir nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Nododd pedwar person perthnasol eu bod yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt a'u bod eisoes yn adlewyrchiad o'u trefniadau ar gyfer cyfarfodydd gyda thenantiaid a phreswylwyr neu o fewn eu gallu i wneud hynny. Serch hynny, nododd Cymdeithas Tai Cantref Cyf na allent warantu y byddai nifer digonol o staff ar gael gyda'r sgiliau i gydymffurfio â safon 25 ar bob achlysur ar hyn o bryd.

Nododd 19 o'r Darparwyr Tai Cymdeithasol nad oeddynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt, sef y safonau sy'n nodi y dylid cynnal y cyfarfod heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd nac ychwaith gyfieithu olynol. Y prif reswm a nodwyd dros y safbwynt hwn oedd nad oedd ganddynt nifer ddigonol o aelodau o staff gyda sgiliau yn yr iaith Gymraeg i allu gwarantu cydymffurfiaeth ar hyn o bryd.

Mynegodd Grŵp Tai Coastal Cyf bryder ynghylch gwerth am arian caffael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfod gydag ond 10% o'r mynychwyr wedi datgan dyhead i siarad Gymraeg.

Nododd 12 o'r personau perthnasol nad oeddynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud pob un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt. Y prif reswm a nodwyd oedd fod darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn gostus gyda'r galw naill ai'n isel iawn os o gwbl; ystyriwyd bod hyn yn golygu bod y gofynion yn anghymesur.

Mynegodd Cartrefi Melin Cyf a Chymdeithas Tai Rhondda Cyf bryder ynghylch cyfrinachedd pan fo cyfieithydd ar y pryd yn bresennol mewn cyfarfod. Aeth Cymdeithas Tai Rhondda Cyf ymlaen i nodi eu bod o'r farn y gall presenoldeb trydydd parti fod yn rhwystr i berson sy'n siarad yn ei ddewis iaith rhag siarad yn agored. Ategodd Cartrefi Melin Cyf hyn drwy nodi y byddai'n afresymol cael siaradwr Gymraeg ym mhob tîm.

Nododd Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf y byddai cydymffurfio â'r safonau hyn yn ymyrryd ar eu prif ddyletswydd, sef darparu cartrefi i bobl fregus. Mynegodd sawl person bryder ynghylch oedi wrth drefnu cyfieithu ar y pryd, gan ei ddisgrifio'n drafferthus. Nid oeddent felly yn ystyried y byddai'n briodol ei ddefnyddio mewn achosion brys. Un person a grybwyllodd gyfieithu olynol fel trefniant dymunol, sef Cymdeithas Tai Wales & West Cyf.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd Safonau ynghylch cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd 30 o'r 37 person perthnasol (81%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 11 person perthnasol (37%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Dylid nodi bod pedwar person perthnasol wedi gwahaniaethu rhwng eu defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn gyffredinol mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn. Hynny yw, nodwyd nad ydynt yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus gan mai tenantiaid a phreswylwyr oedd cynulleidfau darged eu cyfarfodydd. Mae'n bosibl felly, nad yw'r sawl a nododd nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd yn ystyried eu tenantiaid fel aelodau o'r 'cyhoedd' wrth ymateb i'r cwestiwn hwn.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan bob un ohonynt ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 80% o'r safonau ynghylch cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.

O'r sawl a nododd eu bod yn gwneud y gweithgaredd, cadarnhaodd deg ohonynt fod y safonau hyn naill ai eisoes yn arfer cyfredol ganddynt neu eu bod o fewn cyrraedd iddynt. O'r herwydd roeddent yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur eu gwneud yn benodol gymwys iddynt.

Nododd 13 o'r personau perthnasol nad ydynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt. Y prif bryder a gyflëwyd ganddynt oedd bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei drefnu heb fod yn seiliedig ar alw. Mynegwyd y byddai'n dderbyniol pan fo galw digonol. Nododd Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf mai 30% o fynychwyr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg fyddai trothwy isafswm rhesymol a chymesur yn eu tyb hwy.

O'r sawl a nododd eu bod yn gwneud y gweithgaredd, nododd naw eu bod yn ystyried gwneud pob un, neu bron pob un, o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur. Crybwyllodd chwech ohonynt y gost, ynghyd â'r galw isel tybiedig, fel ffactorau a oedd yn gwneud y gofyniad yn afresymol ac anghymesur.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff Safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff [35-36]**

Nododd 26 o'r 37 person perthnasol (70%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd chwe pherson perthnasol (23%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 86% ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 91% o'r safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff.

O'r sawl a nododd eu bod yn gwneud y gweithgaredd, roedd wyth ohonynt eisoes yn cydymffurfio'n llawn neu'n rhannol â'r ddwy safon. O'r herwydd, roeddent yn ystyried eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

O'r gweddill, nododd wyth ohonynt eu bod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur ond y byddent yn cydymffurfio â hwy pe byddai tystiolaeth o alw digonol. Mynegodd Cymdeithas Tai Wales & West Cyf mai digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir yn siroedd Powys, Conwy a Dinbych fyddai'n rhesymol iddynt eu cynnal yn Gymraeg yn eu tyb hwy.

Nododd 12 person perthnasol fod y ddwy safon yn afresymol ac anghymesur oherwydd diffyg galw tybiedig ac oherwydd costau hyrwyddo a chynnal digwyddiad yn y ddwy iaith.

### **Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff Safon ynghylch cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd 35 o'r 37 person perthnasol (95%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 23 person perthnasol (62%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 92% ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i'r safon dan sylw.

Nododd 15 o bersonau perthnasol eu bod yn ystyried gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd eu bod eisoes yn cydymffurfio â hi naill ai'n llawn neu'n rhannol.

Mynegodd chwe pherson perthnasol ddymuniad i gydymffurfio â gofynion y safon pan fo'n briodol yn eu tyb hwy, sef pan fo tystiolaeth o alw neu pan fo iaith y cyhoeddiad neu ddarllediad yn Gymraeg. Nododd Grŵp Seren Cyf fod y safon hon yn ymddangos fel pe nad oedd wedi ei drafftio yng nghyd-destun hysbysebu masnachol ac nad oedd yn addas i'w sector hwy.

O'r sawl a nododd iddynt wneud y gweithgaredd, nododd 13 eu bod yn ystyried gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur, a hynny ar sail cost a bod y galw yn isel yn eu tyb hwy.

### **Gweithgaredd 7: Corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ynghylch corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd 36 o'r 37 person perthnasol (97%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 23 person perthnasol (64%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 70% ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, roedd ymrwymadau'n cyfateb i bob un o'r safonau ynghylch corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus.

Nododd 17 o'r personau perthnasol eu bod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur a'u bod eisoes yn arfer cyfredol ganddynt.

Nododd pump fod eu defnydd o'r Gymraeg yn anghyson wrth arddangos deunydd yn gyhoeddus. Er hynny, roeddynt yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur oherwydd nad yw'r galw'n ddigon uchel yn eu tyb hwy i warantu cydymffurfiaeth ar bob achlysur.

Nododd 13 o'r personau perthnasol nad oedd y Gymraeg yn ymddangos ar nifer helaeth o'r deunydd a arddangosir yn gyhoeddus ganddynt, a'u bod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur. Roedd y rhesymau dros hynny'n cynnwys cost, bod y galw'n isel, cydymffurfiaeth ar fyr rybudd ynghyd â'r traweffaith amgylcheddol.

### **Gweithgaredd 8: Corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd pob un o'r 37 person perthnasol o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 26 person perthnasol (70%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan bob un o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 84% o'r safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau.

Nododd saith person perthnasol eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r mwyafrif o'r safonau hyn, neu y byddent yn cydymffurfio maes o law, a'u bod yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd deg person perthnasol arall eu bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Roedd pob un o'r personau perthnasol oedd yn weddill o'r farn na fyddai gwneud yr un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Er i sawl un o'r personau perthnasol nodi eu bod eisoes yn cyhoeddi dogfennau cyhoeddus allweddol yn ddwyieithog, mynegwyd anfodlonrwydd cyffredinol ynghylch yr angen i gynhyrchu dogfennau at sylw tenantiaid yn ddwyieithog hefyd. Roedd 22 person perthnasol o'r farn bod y galw am ddogfennau o'r fath yn isel ymysg eu tenantiaid ac felly'n credu na fyddai'r buddsoddiad o ran cost, amser ac adnoddau yn gymesur i'r galw hwnnw. At hynny, mynegwyd pryderon cyffredinol o ran yr oedi posibl ynghlwm â chyfieithu dogfennau ynghyd â'u gallu i brawf ddarllen oherwydd diffyg sgiliau iaith Gymraeg ymysg y staff.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Nododd sawl person perthnasol eu bod yn fodlon darparu dogfennau yn Gymraeg ar gais, gyda Thai Cymoedd i'r Arfordir Cyf a Thai Cymunedol Bron Afon Cyf yn nodi eu bod yn ystyried y byddai gosod safon 47 arnynt yn rhesymol a chymesur, a hynny am eu bod o'r farn ei bod yn gweddu i'w hamgylchiadau'n well na'r safonau eraill ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Yng nghyswllt safon 41, nododd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf y byddai'n haws ac yn rhatach iddynt atal aelodau'r cyhoedd rhag arsylwi ar eu cyfarfodydd cyhoeddus, er iddynt bwysleisio y byddai hynny'n mynd yn groes i atebolrwydd cyhoeddus.

Mynegodd Grŵp Tai Coastal Cyf, Cartrefi CNPT Cyf, The Cadarn Housing Group Ltd, Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Cyf a Chymdeithas Tai Wales & West Cyf bryderon ynghylch safon 46 gan nad oeddent o'r farn y byddai'n rhesymol anfon datganiadau Cymraeg at gyhoeddiadau uniaith Saesneg. At hynny, nododd Cymdeithas Tai Cartrefi Dinas Casnewydd Cyf eu bod yn credu y byddai'r gofyniad yn arwain at oedi oherwydd eu dibyniaeth ar gyfieithwyr allanol.

### **Gweithgaredd 9: Corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd 34 o'r 37 person perthnasol (92%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 18 person perthnasol (53%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan bob un o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 88% o'r safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni.

Cadarnhaodd 15 person perthnasol fod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ganddynt neu y byddent yn gallu cydymffurfio â hwy ac felly eu bod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd wyth person perthnasol arall eu bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nid oedd gweddill y personau perthnasol yn ystyried y byddai gwneud yr un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Mynegwyd pryderon ganddynt ynghylch y costau a'r adnoddau ynghlwm â llunio pob dogfen at ddefnydd y cyhoedd yn Gymraeg gan eu bod o'r farn y byddai hynny yn anghymesur i'r galw. Gan ystyried hynny, roedd pum person perthnasol o'r farn y dylid amrywio gofynion y safonau a'u gwneud yn ofynnol ar gais yn unig.

Nododd Cartrefi Melin Cyf y byddent yn ystyried cyfyngu ar nifer y ffurflenni y maent yn eu llunio pe byddai'r safonau hyn yn ofynnol arnynt a hynny er mwyn rheoli'r costau ynghlwm â'u cyfieithu, er y byddai hynny'n debygol o arwain at gwynion yn eu tyb hwy.

Roedd gan bedwar person perthnasol bryderon yn ymwneud â systemau a meddalwedd TGCh gan nodi nad ydynt yn caniatáu i bersonau gwblhau ffurflenni electronig, na chwblhau rhai a gaiff eu cynhyrchu'n awtomatig o gronfeydd data,



drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Roeddent o'r farn y byddai costau uchel ynghlwm ag addasu'r systemau hyn a bod hynny'n anymarferol.

Nododd Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Cyf fod yr awdurdod lleol yn gweinyddu'r broses o wneud cais am dai ar eu rhan ac felly mai eu cyfrifoldeb hwy yw'r ffurflenni cais perthnasol.

### **Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd pob un o'r 37 person perthnasol o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 27 person perthnasol (73%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 68% o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 83% o'r safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.

Nododd 14 person perthnasol eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safonau hyn neu y byddent yn cydymffurfio â hwy, a'u bod yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Roedd deg person perthnasol arall yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nid oedd gweddill y personau perthnasol yn ystyried y byddai gwneud yr un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd naw person perthnasol eu bod yn defnyddio meddalwedd cyfieithu awtomatig i ddarparu fersiynau Cymraeg o'u gwefannau ar hyn o bryd a'u bod o'r farn y byddai defnyddio cyfieithwyr proffesiynol i ymgymryd â'r gwaith yn rhy gostus.

Dylid nodi bod safon y cyfieithiad a ddarperir gan feddalwedd cyfieithu awtomatig yn amrywio, ac ni ellir ystyried cyfieithiad peiriant cyfieithu yn gyfieithiad safonol a chywir. Rhaid golygu cyfieithiadau a wneir gan beiriannau cyn y gellir eu cyhoeddi oherwydd nad oes modd dibynnu ar ganlyniadau'r cyfieithiad awtomatig. Byddai peidio â gwneud hynny'n mynd yn groes i'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Y gost ynghlwm â chyfieithu tudalennau'r wefan i'r Gymraeg oedd y prif bryder a nodwyd, gyda nifer o'r personau o'r farn na fyddai'r costau hynny'n gymesur i'r galw amdanynt. Nododd sawl person perthnasol fod diffyg sgiliau Cymraeg a phroblemau recriwtio yn golygu y byddai'n rhaid defnyddio cyfieithwyr allanol i wneud y gwaith ac y byddai hynny'n ei gwneud yn anodd iddynt ddiweddarau'r wefan yn amserol.

Eglurodd naw person perthnasol eu bod yn defnyddio trydydd parti i ddarparu apiau a rhai gwasanaethau, ar-lein megis talu rhent a rhoi gwybod am waith atgyweirio, ar eu rhan. Gwasanaethau Saesneg a ddarperir gan y rhain drwyddi draw ac roedd gan y personau perthnasol bryderon ynghylch eu gallu i sicrhau bod sefydliadau trydydd parti yn cydymffurfio â'r safonau. Oherwydd hynny, roedd Tai Cymunedol Tai Calon Cyf yn ystyried y dylid amrywio gofynion y safonau hyn fel bod gwasanaethau ar-lein a chyhoeddiadau "brys" yn cael eu heithrio o'r gofynion. Yn yr un modd, nododd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf fod angen ymagwedd ymarferol wrth weithredu'r safonau hynny.

**Gweithgaredd 11: Defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol  
Safon ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol [58-59]**

Nododd 36 o'r 37 person perthnasol (97%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 14 person perthnasol (39%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 95% o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 79% o'r safonau ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol.

Cadarnhaodd 14 person perthnasol eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safonau hyn neu y byddent yn gallu gwneud hynny a'u bod yn ystyried eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd 12 person perthnasol arall eu bod yn fodlon ymateb yn Gymraeg i negeseuon Cymraeg a dderbynnir a'u bod felly yn ystyried y byddai gwneud safon 59 yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nid ystyriai'r personau perthnasol sydd yn weddill y byddai gwneud yr un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Y prif bryder a nodwyd oedd gallu'r personau perthnasol i sicrhau bod pob neges a gyhoeddir drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog. Nododd nifer bod diffyg sgiliau Cymraeg yn golygu y byddai'n rhaid dibynnu ar gyfieithwyr allanol i ymgymryd â'r gwaith. Roedd nifer o'r farn bod natur y cyfryngau cymdeithasol yn golygu bod negeseuon yn aml yn cael eu cyhoeddi ar frys neu'n ddigymell ac y byddai gorfod disgwyl am gyfieithiadau yn tynnu oddi ar effeithiolrwydd y negeseuon hynny. Roedd rhai hefyd o'r farn y byddai'r gost ynghlwm â'r cyfieithu yn anghymesur i'r galw am dderbyn negeseuon drwy gyfrwng y Gymraeg.

At hynny, roedd Tai Cymunedol Bron Afon Cyf o'r farn y byddai gofyniad o'r fath yn peri dryswch ac, o bosibl, yn arwain at lai o sylw ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda Chymdeithas Tai Cadwyn Cyf yn pryderu na fyddai cyfieithwyr yn gallu cyfleu arddull eu sefydliad wrth drosi negeseuon i'r Gymraeg. Nododd The Cadarn Housing Group Ltd y gallai gofyniad o'r fath eu harwain at roi'r gorau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel dull cyfathrebu.

**Gweithgaredd 12: Peiriannau hunanwasanaeth  
Safon ynghylch peiriannau hunanwasanaeth [60]**

Nododd tri o'r 37 person perthnasol (8%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd un person perthnasol (33%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 43% o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i'r safon ynghylch peiriannau hunanwasanaeth.

Cymdeithas Tai Gogledd Cymru Cyf oedd yr unig berson perthnasol i nodi eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safon hon a'u bod yn ystyried y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nid oedd yr un o'r personau perthnasol eraill yn ystyried y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Cyfeiriodd Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd a Chartrefi Conwy Cyf at eu gwasanaeth talu rhent sydd ar gael i'w tenantiaid. Nodwyd mai yn Saesneg yn unig y darperir y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd, a hynny drwy gytundeb trydydd parti. Nododd Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd y byddent yn gallu caffael gwasanaeth dwyieithog gan ddarparwr arall ond y byddai hynny'n golygu eu bod yn torri contract â'r darparwr cyfredol ac y byddai'n rhaid talu costau am hynny. Dylid nodi bod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015 yn nodi'r canlynol:

*Yn y Rheoliadau hyn-*

- (a) mae cyfeiriadau at unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gyflawni gan gorff, neu at unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gorff, i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at y gweithgaredd hwnnw yn cael ei gyflawni ar ran y corff, neu at y gwasanaeth hwnnw yn cael ei ddarparu ar ran y corff, gan drydydd parti o dan drefniadau a wneir rhwng y trydydd parti a'r corff;*
- (b) yn unol â hynny, oni bai bod hysbysiad cydymffurfio yn darparu i'r gwrthwyneb, bydd corff wedi methu â chydymffurfio â safon mewn cysylltiad â gweithgaredd y mae wedi trefnu iddo gael ei gyflawni, neu wasanaeth y mae wedi trefnu iddo gael ei ddarparu, gan drydydd parti os nad yw'r gweithgaredd hwnnw neu'r gwasanaeth hwnnw wedi ei gyflawni neu ei ddarparu yn unol â'r safon.*

Nododd Cartrefi CNPT Cyf hefyd nad yw'r system ar gyfer eu peiriannau hunanwasanaeth yn galluogi i'r gwasanaeth gael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Golyga hynny y byddai'n rhaid creu system arall o'r newydd er mwyn cydymffurfio.

### **Gweithgaredd 13: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff [61-63]**

Nododd pob un o'r 37 person perthnasol o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 29 person perthnasol (78%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan bob un o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 68% o'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff.

Cadarnhaodd 19 person perthnasol fod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn weithredol ganddynt ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd naw person perthnasol arall y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Mynegwyd pryderon gan sawl person perthnasol ynghylch yr angen i osod y testun Cymraeg yn gyntaf ar arwyddion newydd neu ddiwygiedig. Roedd nifer o'r farn nad oedd y gofyniad hwnnw yn gymesur o ystyried bod siaradwyr Cymraeg yn y lleiafrif yn yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu. Roedd eraill o'r farn y byddai'r gofyniad hwnnw yn gallu peri dryswch i bobl fregus a'r rhai ag anghenion llythrennedd.

Mynegwyd pryderon gan rai personau perthnasol ynghylch eu gallu i gydymffurfio â'r safonau hyn ar gyfer arwyddion dros dro, a hynny am eu bod fel arfer yn rhai sydd angen eu harddangos ar frys. Roeddynt o'r farn y byddai risg ynghlwm â'r oedi wrth ddisgwyl am gyfieithiadau gydag eraill o'r farn y byddai'r gost ynghlwm â hynny yn anghymesur o ystyried mai am gyfnod byr y buasent yn cael eu harddangos. Roedd The Cadarn Housing Group Ltd yn cwestiynu'r cyfiawnhad dros osod y safon gan nodi eu bod o'r farn y byddai'n ymyrraeth ddiangen.

Roedd Cymdeithas Tai Gogledd Cymru Cyf o'r farn y byddai'n anodd cadw cofnod o'r holl arwyddion sydd ganddynt er mwyn sicrhau bod y rhai sydd angen eu hadnewyddu yn cydymffurfio.

Nododd Cymdeithas Tai Sir Fynwy Cyf a Chartrefi CNPT Cyf y byddai costau sylweddol ynghlwm â disodli pob arwydd er mwyn cydymffurfio. Dylid nodi bod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn yn berthnasol pan fo person perthnasol yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd.

### **Gweithgaredd 14: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ynghylch derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [64-68]**

Nododd 36 o'r 37 person perthnasol (97%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 12 person perthnasol (33%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 84% o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 67% o'r safonau ynghylch derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.

Cadarnhaodd 15 person perthnasol eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safonau hyn neu y byddent yn gallu gwneud hynny a'u bod yn ystyried eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Roedd wyth person perthnasol arall yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Prif bryder y personau perthnasol oedd eu gallu i sicrhau cydymffurfiaeth ar bob achlysur. Nododd sawl un y byddai'n anodd iddynt warantu hynny gan fod nifer y staff ar y dderbynfa sy'n medru'r Gymraeg yn isel gyda rhai heb unrhyw staff o'r fath. Roedd rhai yn bryderus o'r gost ynghlwm â recriwtio staff newydd, hyfforddi rhai cyfredol neu ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu, gydag eraill o'r farn y byddai recriwtio siaradwyr Cymraeg yn anodd wrth ystyried proffil siaradwyr Cymraeg yr ardal. Roedd rhai hefyd o'r farn y byddai'r buddsoddiad ynghlwm â hynny yn anghymesur i'r galw am dderbyn gwasanaethau derbynfa Cymraeg.

Nododd Grŵp Gwalia Cyf fod ganddynt nifer o ardaloedd mewngofnodi mewn gwahanol gartrefi nyrsio a lleoliadau gofal preswyl ac y byddai'n anodd gwarantu gwasanaeth Cymraeg yn yr ardaloedd hyn bob amser. Nodwyd nad yw natur yr ymweliadau yn golygu bod ymwelwyr yn gwneud apwyntiad ac felly y byddai'n amhosibl canfod eu dewis iaith ymlaen llaw. Nododd Hafan Cymru hefyd y byddai'n gallu cydymffurfio â'r safonau ar gyfer ei brif dderbynfa ond y byddai hynny'n anodd ar gyfer gweddiill yr ardaloedd gan fod y staff â sgiliau Cymraeg yn brin ac ar wasgar ar draws eu swyddfeydd yng Nghymru.

**Gweithgaredd 15: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol  
Safonau ynghylch corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [69-70]**

Nododd 26 o'r 37 person perthnasol (70%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd naw person perthnasol (35%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 86% o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 50% o'r safonau ynghylch corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.

Nododd 14 person perthnasol eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safonau hyn neu y byddai modd iddynt gydymffurfio â hwy a'u bod yn ystyried eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Roedd dau berson perthnasol arall o'r farn y byddai gwneud detholiad o'r safonau'n benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er i Gartrefi Cymoedd Merthyr Cyf nodi nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd ar hyn o bryd, roeddent o'r farn y byddai modd iddynt gydymffurfio petaent yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn y dyfodol.

Y gost ynghlwm â chyfieithu hysbysiadau i'r Gymraeg oedd prif bryder y personau perthnasol, gyda nifer o'r farn na fyddai'r costau hynny'n gymesur i'r galw amdanynt. At hynny, mynegodd Grŵp Gwalia Cyf, Grŵp Hendre, Cartrefi CNPT Cyf ac United Welsh Housing bryderon ynghylch dogfennau technegol a chyfreithiol eu natur.

Roedd Tai Cymunedol Bron Afon Cyf o'r farn y byddai'r gofyniad i osod y Gymraeg yn gyntaf ar hysbysiadau swyddogol yn gallu peri dryswch i'r rhai ag anghenion llythrennedd.

**Gweithgaredd 16: Corff yn dyfarnu grantiau  
Safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau [71-75]**

Nododd 15 o'r 37 person perthnasol (41%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd chwe pherson perthnasol (40%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan bob un o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 73% o'r safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau.

Cadarnhaodd saith person perthnasol fod y gofynion ynghlwm â'r safonau eisoes yn arfer cyfredol neu y gallant gydymffurfio a'u bod yn ystyried gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. At hynny, nododd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf y byddent yn gallu cydymffurfio'n llawn â phob un ac eithrio safon 73. Roeddent o'r farn y byddai'n anodd sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safon honno ar bob achlysur gan y byddai'n bosibl y byddai swyddog di-Gymraeg yn mynychu cyfweiliad o'r fath.

Roedd y pryderon a nodwyd gan bersonau yn cynnwys y gost ynghlwm â defnyddio gwasanaethau cyfieithu i gydymffurfio, a hynny oherwydd diffyg sgiliau iaith

Gymraeg eu staff cyfredol. At hynny, roedd nifer ohonynt o'r farn na fyddai'r gost yn gymesur i'r galw sydd am dderbyn y gwasanaethau hyn yn Gymraeg.

Nododd Cymdeithas Tai Wales & West Cyf nad oedd yn eglur iddynt beth a olygir gan y term "grant" yn y cyd-destun hwn, er eu bod yn cydnabod eu bod yn cynnig grantiau i breswylwyr. **Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ar gwmpas y term "grant" wrth bennu safonau mewn rheoliadau.**

### **Gweithgaredd 17: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ynghylch corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [76-80]**

Nododd 36 o'r 37 person perthnasol (97%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd saith person perthnasol (19%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan bob un o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 72% o'r safonau ynghylch corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.

Nododd pedwar person perthnasol y byddent yn gallu cydymffurfio â'r safonau hyn a'u bod yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. At hynny, nododd saith person perthnasol ychwanegol eu bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Cymdeithas Tai Cantref Cyf eu bod o'r farn y byddai angen archwilio eu gallu i gydymffurfio ymhellach cyn dod i gasgliad.

Mynegodd sawl person perthnasol y byddai costau sylweddol ynghlwm â gweithredu'r safonau hyn a'u bod o'r farn y byddai'r costau hynny'n anghymesur i'r galw ac yn rhoi pwysau cynyddol ar y sefydliad. Nododd sawl person perthnasol bod diffyg sgiliau iaith Gymraeg gan y staff ac ymgynghorwyr perthnasol ar hyn o bryd ac y byddai hynny'n golygu dibynnu ar wasanaethau cyfieithu allanol er mwyn cydymffurfio â'r safonau hyn.

At hynny, roedd nifer o'r farn bod risg y gallai gwybodaeth gael ei cholli wrth gyfieithu dogfennau cyfreithiol a chymhleth fel gwahoddiadau i dendro ac y byddai hynny'n eu gwneud yn agored i her. Yn yr un modd, roedd Cymdeithas Tai Taf Cyf o'r farn y byddai problemau cyfrinachedd ynghlwm â defnyddio gwasanaethau cyfieithu mewn cyfweliad â thendrwr.

Mynegodd Pennaf Cyf ac United Welsh Housing bryderon am nad yw rhai o'r dogfennau a gynhyrchir gan sefydliadau eraill, ac a gaiff eu defnyddio ganddynt fel rhan o'r gwahoddiadau i dendro, ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd. O'r herwydd, nodwyd y byddai costau sylweddol ynghlwm â chyfieithu'r rheini.

Nododd Cymdeithas Tai Aelwyd Cyf fod gwerth y contractau sy'n cael eu dyroddi ganddynt yn rhai o werth isel ac felly roeddynt yn credu na fyddai'r rhain yn berthnasol i fwriad y safonau hyn. Dylid nodi nad yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn ymhelaethu ar werth y contractau y mae'r safonau hyn yn berthnasol iddynt.

### **Gweithgaredd 18: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [81-82]**

Nododd 20 o'r 37 person perthnasol (54%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 15 person perthnasol (75%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 97% o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 88% o'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.

Cadarnhaodd 18 person perthnasol eu bod eisoes yn gweithredu'r safonau hyn yn rhannol neu y byddent yn gallu cydymffurfio a'u bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Er i Gartrefi Conwy Cyf a Grŵp Gwalia Cyf nodi eu bod yn ystyried bod y safonau hyn yn rhesymol a chymesur, nodwyd y byddai angen sicrhau cysondeb ar draws pob maes gwaith wrth eu gweithredu. Yn yr un modd, er i Pennaf Cyf nodi eu bod yn cydymffurfio'n rhannol â'r safonau hyn, eglurwyd bod rhai o'u ffurflenni yn rhai anhyblyg ac na fyddai modd cynnwys brawddeg arnynt i nodi bod ffurflenni Cymraeg cyfatebol ar gael.

Ymddengys bod nifer o'r personau perthnasol yn ystyried bod angen iddynt ddarparu gwasanaethau Cymraeg penodol ar gyfer pob maes gwaith o dan y safonau hyn. Roedd nifer o'r farn nad oes ganddynt y gallu i wneud hynny ac felly nid oeddynt yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Dylid nodi bod y safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau godi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg y maent yn eu darparu.

Nododd Grŵp Hendre ei bod yn anodd rhagweld eu gallu i gydymffurfio heb wybod yn union pa wasanaethau Cymraeg y byddai'n ofynnol iddynt eu darparu o dan y safonau.

### **Gweithgaredd 19: Hunaniaeth gorfforaethol corff**

#### **Safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff [83]**

Nododd 36 o'r 37 person perthnasol (97%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 26 person perthnasol (72%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Dylid nodi bod tystiolaeth Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf Cyf yn amlygu eu bod yn gwneud y gweithgaredd, yn groes i'r hyn a nodwyd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 97% o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i'r safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff.

Nododd 29 person perthnasol eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safon hon neu y byddai modd gwneud hynny a'u bod yn ystyried y byddai ei gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Nododd Cymdeithas Tai Wales & West Cyf eu bod yn cydymffurfio'n rhannol â'r safon ar hyn o bryd gan eu bod yn defnyddio logo dwyieithog ar y mwyafrif o'u dogfennau corfforaethol ond bod eu hunaniaeth gorfforaethol yn cael ei chyflwyno yn Saesneg yn bennaf ar eu gwefan. Roeddent o'r farn bod parhau â'r drefn hon yn fwy rhesymol wrth ystyried proffil ieithyddol yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu.

Yn yr un modd, roedd Grŵp Tai Coastal Cyf, Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf Cyf a Thai Cymoedd i'r Arfordir Cyf i gyd o'r farn na fyddai'n rhesymol iddynt gydymffurfio â'r safon, gan nodi bod proffil ieithyddol siaradwyr Cymraeg yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu yn isel. At hynny, nid oedd Cartrefi Melin Cyf yn ystyried y byddai'r gost o orfod cydymffurfio â'r safon ar gyfer pob dogfen yn ddefnydd cymesur o adnoddau. Nododd Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf y byddent yn fodlon cydymffurfio ar gais ond y byddai gwneud hynny bob tro yn gallu tynnu oddi wrth wasanaethau eraill.

Roedd United Welsh Housing o'r farn bod eu henw presennol bellach yn adnabyddus iawn ac na fyddai modd ei gyfieithu'n uniongyrchol. At hynny, nodwyd bod cytundeb wedi bod rhyngddynt a Bwrdd yr Iaith Gymraeg na fyddai'n rhaid iddynt gyfieithu eu henw. Gyda hynny, cyfeiriodd sawl person perthnasol arall at y ffaith mai eu henw Saesneg sydd wedi'i gofrestru'n swyddogol ac nad oes unrhyw statws cyfreithiol i'r enw Cymraeg. Dylid nodi y nodir y canlynol yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015:

- (1) *At ddibenion safon 83, mae'r cyfeiriad at gorff yn cyflwyno ei "hunaniaeth gorfforaethol" yn cynnwys, ymysg pethau eraill, y ffordd y mae corff yn ei gyflwyno ei hun drwy ddatganiadau gweledol yr enw neu'r enwau a ddefnyddir gan gorff, a'r brandio a'r sloganau a ddefnyddir gan gorff (er enghraifft, brandio a sloganau a argraffir ar ei bapur ysgrifennu).*
- (2) *Nid yw safon 83 yn berthnasol i'r graddau y mae deddfiad yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddefnyddio enw cyfreithiol.*

### **Gweithgaredd 20: Cyrsiâu a gynigir gan gorff Safonau ynghylch cyrsiau a gynigir gan gorff [84-86]**

Nododd 13 o'r 37 person perthnasol (35%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd un person perthnasol (8%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Er nodi nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd, nododd Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf fod pob cwrs yn cael ei ddarparu'n allanol ganddynt.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 11% o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 67% o'r safonau ynghylch cyrsiau a gynigir gan gorff.

Nododd tri pherson perthnasol eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. At hynny, roedd pum person perthnasol arall o'r farn y byddai gwneud detholiad ohonynt yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.



Ymddengys bod rhywfaint o aneglurder ymysg rhai o'r personau perthnasol ynghylch cwmpas diffiniad y "cyhoedd". Nododd pum person perthnasol nad oeddynt yn darparu cyrsiau i'r cyhoedd er eu bod yn gwneud hynny ar gyfer tenantiaid a'u teuluoedd. **Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ar gwmpas y term "cyhoedd" wrth bennu safonau mewn rheoliadau ac wrth ystyried gwaith a chynulleidfa Darparwyr Tai Cymdeithasol.**

Ymysg y prif bryderon a gyflwynwyd ynghylch gallu'r personau perthnasol i gydymffurfio â'r safonau hyn roedd argaeledd tiwtoriaid Cymraeg a'r costau ynghlwm â chyrchu'r tiwtoriaid hynny a gwasanaethau cyfieithu. Roedd nifer o'r personau perthnasol o'r farn na fyddai'r adnoddau sydd ynghlwm â gweithredu'r safonau yn gymesur i'r galw ymysg eu tenantiaid am gyrsiau cyfrwng Cymraeg. Nododd Cartrefi CNPT Cyf bryderon ynghylch y posibilrwydd o oedi wrth gyfieithu deunydd ysgrifenedig ac felly na fyddai modd iddynt warantu cysondeb yn ansawdd y cyrsiau a ddarperir ganddynt.

At hynny, nododd tri pherson perthnasol eu bod yn darparu cyrsiau drwy drydydd parti a'u bod o'r farn y byddai'n anodd sicrhau darpariaeth ddwyieithog oherwydd natur arbenigol y cyrsiau ac am nad oedd gofyniad o'r fath yn rhan o'r contractau cyfredol.

### **Gweithgaredd 21: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ynghylch systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [87]**

Nododd naw o'r 37 person perthnasol (24%) o fewn y grŵp Darparwyr Tai Cymdeithasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd dau berson perthnasol (22%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 8% o'r personau perthnasol ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i'r safon ynghylch systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Nododd Pennaf Cyf y byddent yn gallu cydymffurfio â'r safon hon a'u bod yn ystyried y byddai ei gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf eu bod eisoes yn gwneud negeseuon dwyieithog mewn lifftiau a'u bod hefyd yn ystyried bod y safon yn rhesymol a chymesur. Er hynny, mynegwyd pryderon ganddynt ynghylch yr angen i wneud negeseuon at ddefnydd mewnol rhwng staff yn ddwyieithog gan nodi mai Saesneg yw dewis iaith eu staff cyfredol ac y byddai'r gofyniad hwn yn creu cymhlethdod heb lawer o fudd yn eu tyb hwy.

Argaeledd staff Cymraeg oedd prif bryder y personau perthnasol ynghylch eu gallu i gydymffurfio â'r safon hon gydag eraill o'r farn nad oes galw ymysg eu tenantiaid o ystyried eu proffil ieithyddol. Nododd Grŵp Gwalia Cyf y byddai gofyniad o'r fath yn eu harwain at beidio gwneud cyhoeddiadau.

Nododd tri pherson perthnasol eu bod yn defnyddio system annerch cyhoeddus yn achlysurol mewn digwyddiadau cyhoeddus megis cyfarfod cyffredinol blynyddol. Serch hynny, roedd y tri o'r farn na fyddai gweithredu'r safon yn rhesymol a chymesur gan nodi na fyddai'n bosibl sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar gael bob tro i wneud cyhoeddiadau o'r fath ac y dylai hynny ddiwyddu ar y gynulleidfa a'r galw.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Dylid nodi bod safonau penodol wedi'u pennu yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff.

### Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [155-160]

Cadarnhaodd 18 person perthnasol y byddai modd iddynt gydymffurfio â'r safonau hyn a'u bod yn ystyried eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd pum person perthnasol arall y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Prif bryderon y personau perthnasol eraill oedd y byddai baich gweinyddol ychwanegol ynghlwm â gweithredu'r safonau hyn, gyda nifer o'r farn nad oedd y baich hwnnw'n ymddangos yn gymesur i'r galw sydd am wasanaethau Cymraeg. At hynny, roedd nifer o'r farn na fyddai'r costau sydd ynghlwm â chyfieithu'r dogfennau perthnasol yn werth am arian.

Mynegwyd pryderon penodol gan bedwar person perthnasol ynghylch y dyddiad a nodir yn safon 158(3) ar gyfer cyflwyno adroddiad blynyddol. Roedd y pedwar o'r farn y byddai cyflwyno adroddiad o'r fath erbyn y dyddiad hwn yn heriol iawn ac yn groes i'r dyddiad cyfredol ar gyfer cyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Ymddengys o'r dystiolaeth a dderbyniwyd fod nifer o'r personau perthnasol wedi camddehongli'r safonau hyn. Cyfeiriodd tri ohonynt at safonau perfformiad eraill y maent o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ac roeddynt yn ystyried y byddai'n rhaid mynd ati i gyfieithu a chyhoeddi'r rheiny. O'r herwydd nid oeddent yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd tri arall nad oes dyletswydd artnynt i gydymffurfio ag unrhyw safonau ac felly eu bod o'r farn na fyddai'r safonau hyn yn berthnasol iddynt. **Wrth bennu safonau mewn rheoliadau, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau terfynol yn amlinellu'r gofyniad yn glir.**

### Safonau llunio polisi [88-97]

#### Safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg [88-97]

Cadarnhaodd 14 o'r personau perthnasol eu bod yn asesu ac yn monitro effaith y caiff polisiâu a lunnir neu a adolygir ar y Gymraeg. Nododd dau eu bod yn cynnal asesiadau drwy dulliau anffurfiol ar hyn o bryd, tra bod 10 person perthnasol wedi nodi eu bod yn cynnwys effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg yn eu hasesiadau ardrawiad effaith cydraddoldeb ar bolisiâu newydd. Cadarnhaodd dau sefydliad eu bod yn ystyried effeithiau polisiâu ar y Gymraeg yn gyffredinol ar hyn o bryd.

Nododd 10 sefydliad nad ydynt yn ystyried effeithiau eu polisiâu ar hyn o bryd, a nododd 10 person perthnasol arall nad yw hyn yn arfer cyfredol ond y byddai modd ymgorffori cwestiynau penodol ar y Gymraeg i'r asesiad ardrawiad effaith cydraddoldeb presennol yn y dyfodol. Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ar eu dulliau cyfredol o asesu effeithiau penderfyniadau polisi gan dri sefydliad.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 97% ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, roedd ymrwymadau'n cyfateb ar

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

gyfartaledd i 74% o'r safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg.

Amlygodd 16 person perthnasol (43%) eu bod o'r farn y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf eu bod yn adolygu nifer helaeth o bolisiau busnes yn rheolaidd, ac y byddai cynnal asesiad effaith cydraddoldeb o ran y Gymraeg ar bob un ohonynt yn cynyddu'r gost ac yn cael effaith ar amser staff wrth ymgymryd â'r gwaith. Ategwyd hynny gan fynegi pryder y byddai oedi o ran newidiadau polisi hanfodol eraill.

Cadarnhaodd 22 person perthnasol (59%) eu bod yn ymgynghori ar benderfyniadau polisi yn unol â safonau 91-93. Nododd Cartrefi Conwy Cyf eu bod yn ymgynghori ond bod y trafodaethau yn cael eu cynnal mewn modd anffurfiol yn hytrach na thrwy gyhoeddi dogfen ymgynghori benodol. Nodwyd ganddynt bod mynychwyr fel rheol yn cynnwys grŵp bychan o ddefnyddwyr gwasanaeth a bod mewnbyn ychwanegol gan asiantaethau a chydweithwyr o bryd i'w gilydd. Nodwyd eu bod yn ystyried effeithiau ar y Gymraeg, er y cydnabuwyd nad oedd dull cyson ar waith yma.

Cadarnhaodd 9 person perthnasol (24%) eu bod yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau. Nododd Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd fod proses a ffurflen gais ar gyfer hyn ar hyn o bryd ond nad oedd polisi corfforaethol ar waith. Nododd Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyf nad oes ganddynt ar hyn o bryd unrhyw ganllawiau penodol yn ymwneud a'r Gymraeg o fewn y broses hon.

Nododd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf fod darpariaeth bresennol o fewn y canllawiau sgorio grant 'Cronfa Fuddsoddi Cymunedol' ar gyfer 'Adnabod ac ymateb i anghenion cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned'.

Cydnabu nifer o'r personau perthnasol nad ydynt yn asesu'r effaith y byddai dyfarnu grant yn ei chael ar y Gymraeg.

Wrth gomisiynu gwaith ymchwil i'w cynorthwyo i gymryd penderfyniadau polisi, cydnabu'r mwyafrif o'r personau perthnasol nad ydynt yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg trwy ddulliau strwythuredig ar hyn o bryd.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [161-166]**

Cadarnhaodd 15 person perthnasol (41%) eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau atodol dan sylw yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Cartrefi Melin Cyf eu bod yn rhagweld na fyddai'r safonau llunio polisi, eu hadroddiad blynyddol, eu trefn gwyno ac adrodd yn wahanol i'w gofynion presennol ac y byddai'n rhesymol iddynt gyfieithu'r dogfennau i'r Gymraeg. Yn yr un modd, mynegodd Tai Cymunedol Bron Afon Cyf eu bod yn ystyried bod safonau atodol 161-166 yn rhesymol a chymesur gan y byddai modd eu hymgorffori i'w trefniadau llywodraethu presennol.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Mynegodd 18 person perthnasol (49%) eu bod yn ystyried bod safonau 161-166 yn afresymol ac anghymesur. Nododd Hafan Cymru fod ganddynt drefniadau monitro ar waith ar gyfer eu cynllun iaith Cymraeg ond nad oedd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd. Ychwanegwyd y byddai cydymffurfio gyda'r safonau atodol hyn yn golygu y byddai angen iddynt ymrwymo rhagor o amser staff ac adnoddau ychwanegol er mwyn cydymffurfio â'r safonau atodol hyn.

Nododd Grŵp Gwalia Cyf eu bod o'r farn y byddai detholiad o'r safonau yn rhesymol ond gan ystyried maint y sefydliad a natur amrywiol eu gwaith, y byddai goblygiadau mawr i gydymffurfio â'r safonau llunio polisi.

Mynegodd Cartrefi CNPT Cyf eu bod o'r farn nad yw'r safonau polisi yn berthnasol, gan nad oedd eu rheoleiddiwr presennol, Llywodraeth Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt feddu ar ddogfen llunio polisi.

### Safonau gweithredu [98-144]

#### **Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [98-111]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 57% ohonynt ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 16% o'r safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.

Cadarnhaodd 15 o'r 37 person perthnasol eu bod yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd, gyda deg ohonynt yn nodi y gellir datblygu polisi yn y dyfodol heb unrhyw drafferthion. Gan ystyried safon 98, y prif bryderon ymysg y personau eraill oedd goblygiadau adnoddau a chost; y ffaith mai iaith weinyddol y sefydliad yw'r Saesneg; y farn nad oedd galw gan staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol; a phriodoldeb gosod y safon ar sefydliad â chanran isel o staff â sgiliau iaith Gymraeg.

Nododd Cymdeithas Tai Cartrefi Dinas Casnewydd Cyf y cynhelir holl weithgarwch mewnol y sefydliad yn Saesneg ar hyn o bryd ac y byddai unrhyw newid i'r drefn honno yn ddibynnol ar alw gan staff. Nid oedd Cymdeithas Tai Sir Fynwy Cyf yn ystyried bod diddordeb gan staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ac y byddai sefydlu polisiâu a phrosesau i hwyluso'r defnydd mewnol o'r iaith yn arwain at gost sylweddol. Nododd Tai Cymunedol Tai Calon Cyf fod y diffyg defnydd o'r Gymraeg ymysg staff, ynghyd â'r diffyg sgiliau sydd ganddynt yn yr iaith yn gyffredinol yn golygu y byddai'n anymarferol, aneconomaidd a'n anghymesur gweithredu safon 98.

O'r 15 person perthnasol yr oedd ganddynt bolisi yn unol â safon 98 eisoes, nododd 13 (87%) eu bod yn cyhoeddi'r polisi ar eu mewnwyd neu rwydwaith cyfathrebu tebyg. Er hynny, amlygwyd pryderon ynghylch sicrhau cydymffurfiaeth lawn â safon 98, a hynny wrth gyhoeddi'r polisi ar rwydweithiau cyfathrebu nad ydynt o bosib yn dod o dan y diffiniad o 'fewnwyd' (e.e. adran staff ar eu gwefan). **Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ynghylch cwrpas y diffiniad o 'fewnwyd' yng nghyswllt y safonau dan sylw, wrth bennu safonau mewn rheoliadau.**

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Cadarnhaodd 21 o'r 37 person perthnasol ei bod yn arfer cyfredol ganddynt ddarparu detholiad neu bob un o'r dogfennau a nodir yn safonau 99-104 yn Gymraeg, neu y gallent wneud hynny yn y dyfodol. Safon 104 a gododd y nifer uchaf o bryderon ymysg y personau eraill. Derbyniwyd tystiolaeth gan The Cadarn Housing Group Ltd, Cymdeithas Tai Taf Cyf a Chartrefi Conwy Cyf yn nodi bod meddalwedd adnoddau dynol electronig a ddefnyddir i gofnodi gwyliau, absenoldebau a gweithio hyblyg yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd. Ategwyd hynny y byddai datblygu neu brynu system newydd ddwyieithog i fodloni'r safon yn arwain at gost iddynt.

Yn yr un modd â safon 98, nodwyd pryderon ynghylch y goblygiadau adnoddau a chost a ddaw yn sgil cydymffurfio â safonau 99-104 yn ogystal â'r ffaith nad oedd y Gymraeg yn iaith weinyddol yn y sefydliad. Ymhellach, derbyniwyd sylwadau na fyddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys yn rhesymol na'n gymesur oherwydd ymarferoldeb cyfieithu testun dogfennau byw o un iaith i'r llall; galw isel tybiedig am y dogfennau gan staff; ac anghysonderau posibl rhwng ystyr a bwriad cynnwys y dogfennau sydd wedi'u cyfieithu o'i gymharu â'r dogfennau gwreiddiol. Er enghraifft, pwysleisiodd Grŵp Gwalia y byddai goblygiadau ymarferol sylweddol mewn perthynas â safonau 99-104. Wrth ystyried y nifer uchel o ddogfennau yn ymwneud â materion adnoddau dynol a drosglwyddir rhwng staff a rheolwyr llinell di-Gymraeg, mynegwyd y byddai'n amhosibl gweithredu eu swyddogaethau pe bai angen cyfieithu dogfennau yn unol â dewis iaith aelod o staff.

Yng nghyswllt y gofynion sydd ynghlwm â safonau 105-111, cadarnhaodd pedwar person perthnasol, sef Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf, Cymdeithas Tai Cantref Cyf, Tai Ceredigion Cyf a Grŵp Cynefin fod yr holl bolisiau dan sylw yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Nododd gweddill y personau perthnasol mai'r arfer cyfredol yw cyhoeddi'r polisiau yn Saesneg yn unig. Er hynny, nododd 13 person perthnasol y byddai'n rhesymol iddynt gyhoeddi'r holl bolisiau hynny, neu ddetholiad ohonynt, yn y Gymraeg yn y dyfodol; nododd eraill (Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf, Grŵp Tai Coastal Cyf, Grŵp Hendre a Chymdeithas Tai Wales & West Cyf) eu bod o'r farn y byddai'n rhesymol darparu polisiau yn y Gymraeg ar gais.

### Safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelodau o staff corff [112-115]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 24% ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 42% o'r safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelodau o staff corff.

Cadarnhaodd 19 allan o'r 37 person perthnasol eu bod yn caniatáu i bob aelod o staff gyflwyno cwynion iddynt yn Gymraeg, gydag 18 yn nodi eu bod yn ymateb i unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â hwy yn yr iaith honno. Er hynny, saith person perthnasol yn unig a nododd eu bod yn hysbysu staff bod modd gwneud hynny yn Gymraeg ar hyn o bryd. Ymhellach, pump yn unig a gadarnhaodd eu bod yn rhoi gwybod, yn Gymraeg, beth yw eu penderfyniad yn dilyn cwyn ar hyn o bryd.

Pe bai angen cyfarfod ynghylch cwyn yn Gymraeg, chwech yn unig a nododd y byddai modd cynnig cynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg ar hyn o bryd. Grŵp Cynefin, Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf a Thai Ceredigion Cyf yn unig a gadarnhaodd bod cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu yn arfer cyfredol, gyda Chymdeithas Tai Cantref Cyf, Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf a Chartrefi Cymoedd Merthyr Cyf yn cadarnhau y gellir darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfarfod pe byddai angen.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Nododd 16 allan o'r 37 person perthnasol y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud safonau 112-115, neu ddetholiad ohonynt, yn benodol gymwys iddynt. Ymysg y prif bryderon a nodwyd gan bersonau eraill roedd y diffyg galw tybiedig gan aelodau o staff am y gwasanaeth; diffyg sgiliau iaith Gymraeg staff adnoddau dynol; goblygiadau cost darparu gwasanaethau cyfieithu; yr oedi posibl yn y broses gwyno wrth orfod darparu gwasanaeth Cymraeg; a'r anghysonderau posibl rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau.

At hynny, nododd The Cadarn Housing Group Ltd eu bod yn gwrthwynebu'r safonau dan sylw yn gryf, gan eu bod o'r farn nad oes unrhyw alw am wasanaeth Cymraeg, ac mai iaith weinyddol y sefydliad yw'r Saesneg. Ychwanegwyd y byddai'r safonau yn achosi oedi, amwysedd a dryswch yn y broses gwyno.

### Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [116-119]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 22% ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 45% o'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.

Cadarnhaodd 18 allan o'r 37 person perthnasol eu bod yn caniatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn yn Gymraeg. Er hynny, chwech o'r personau hynny 'n unig sydd yn hysbysu staff bod modd gwneud hynny ar hyn o bryd.

Nododd saith allan o'r 37 person perthnasol eu bod yn cynnig cynnal cyfarfodydd ynghylch achosion disgyblu yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Mynegodd Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf, Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf, Grŵp Cynefin a Thai Ceredigion Cyf fod cynnal cyfarfodydd disgyblu yn Gymraeg yn arfer cyfredol, gyda Chymdeithas Tai Cantref Cyf, Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf a Chartrefi Cymoedd Merthyr Cyf yn nodi y byddent yn gallu cynnal cyfarfod drwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Nododd 22 allan o'r 37 person perthnasol (59%) y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud safonau 116-119, neu ddetholiad ohonynt, yn benodol gymwys iddynt. Yn yr un modd â safonau 112-115, ymysg y prif bryderon a nodwyd gan bersonau eraill roedd y diffyg galw honedig gan aelodau o staff am y gwasanaeth; diffyg sgiliau iaith Cymraeg staff adnoddau dynol; goblygiadau cost darparu gwasanaethau cyfieithu; yr oedi posibl yn y broses gwyno wrth orfod darparu gwasanaeth Cymraeg; a'r anghysonderau posibl rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau.

Er enghraifft, nododd Cymdeithas Tai Rhondda Cyf nad oedd ganddynt arbenigwyr adnoddau dynol oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac y byddent felly'n gorfod dibynnu ar ymgynghorwyr allanol i ymgymryd â gwaith ar eu rhan; mynegwyd byddai prynu gwasanaethau fel hyn i mewn yn gostus iawn. Yn ogystal, roeddent o'r farn y byddai gorfodi'r sefydliad i ddibynnu ar arbenigedd allanol er mwyn darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn peri risg sylweddol i'r sefydliad, a hynny am na fyddai ganddynt fodd o sicrhau bod yr ymgynghorwyr hynny'n cadw at gyfraith cyflogaeth.

### **Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [120-126]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 46% ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 24% o'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.

Nododd 18 allan o'r 37 person perthnasol eu bod yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i gyflogeion a gweithwyr ar hyn o bryd, neu y gellir gwneud hynny yn y dyfodol. At hynny, Tai Cymunedol Tai Calon Cyf, Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf, Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf, Grŵp Cynefin a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru Cyf yn unig a gadarnhaodd eu bod yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd i staff ar hyn o bryd, gyda phedwar person ychwanegol yn dweud y gellir cyflawni'r gofynion yn y dyfodol.

Cadarnhaodd pob person perthnasol, ar wahân i Gymdeithas Tai Aelwyd Cyf, Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Cyf, Hafan Cymru, Cymdeithas Tai Cantref Cyf, Grŵp Seren Cyf a Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf Cyf (86%), eu bod yn gweithredu system fewnrwyd. O'r rhai hynny, Tai Ceredigion Cyf, Cymdeithas Tai Wales & West Cyf, Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf a Grŵp Cynefin (13%) yn unig a gadarnhaodd bod tudalennau'r fewnrwyd, yn rhannol neu'n llawn, ar gael yn Gymraeg yn rhannol neu'n gyfan gwbl.

Nododd 13 allan o'r 37 (35%) y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud safonau 121-126, neu detholiad ohonynt, yn benodol gymwys iddynt. Ymysg y sylwadau a dderbyniwyd gan weddill y personau, nodwyd pryderon ynghylch yr anallu i fodloni rhai gofynion am nad oes gan y person perthnasol fewnrwyd; y diffyg galw gan staff am y gwasanaeth yn Gymraeg; y diffyg sgiliau iaith Cymraeg gan staff i ddiweddarau tudalennau'r fewnrwyd i'r Gymraeg; y ddibyniaeth ar gyfieithwyr allanol i ddiweddarau'r tudalennau i'r Gymraeg, a'r gost ynghlwm â hynny; a'r goblygiadau adnoddau a chost ynghlwm ag addasu'r system fewnrwyd gyfredol, neu brynu system fewnrwyd newydd, i sicrhau ei bod ar gael yn Gymraeg.

Er enghraifft, nododd Cymdeithas Tai Sir Benfro Cyf y byddai angen buddsoddiad sylweddol yn eu systemau TG er mwyn cyflawni holl ofynion y safonau'n ymwneud â'r fewnrwyd; Mynegwyd y byddai'r gwariant gofynnol y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i glustnodi ar hyn o bryd, ac y byddai sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau dan sylw yn cael effaith negyddol ar wasanaethau i gwsmeriaid.

### **Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [127-135]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan bob un ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 62% o'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Cadarnhaodd 28 o'r 37 person perthnasol (76%) eu bod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg eu cyflogeion.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safon 128, nododd pum person perthnasol ei fod yn arfer cyfredol iddynt ddarparu hyfforddiant i staff yn Gymraeg yn un neu ragor o'r meysydd dan sylw.

Gan ystyried safon 129, nododd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf, Tai Ceredigion Cyf, Cymdeithas Tai Cantref Cyf a Grŵp Cynefin, i raddau gwahanol, nad oedd yn arfer cyfredol iddynt gydymffurfio â'r gofynion, a hynny oherwydd bod lefel uchel o'u staff yn siaradwyr Cymraeg ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn y meysydd dan sylw. Cadarnhaodd Cymdeithas Tai Wales & West Cyf a Chymdeithas Tai Bro Myrddin Cyf y byddai darparu hyfforddiant o'r fath yn dibynnu ar gais gan aelod o staff. Ymhellach, mynegodd Pennaf Cyf fod trefniadau yn yr arfaeth i ddarparu hyfforddiant dwyieithog yn y meysydd dan sylw mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill.

Mewn perthynas â safonau 130 a 131, cadarnhaodd 28 o'r 37 person perthnasol (73%) eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r gofynion dan sylw. Er hynny, derbyniwyd tystiolaeth oedd yn awgrymu bod y galw a'r defnydd o'r cyrsiau hyn gan staff yn amrywio. Er enghraifft, nododd Grŵp Hendre a Chymdeithas Tai Aelwyd Cyf bod galw am gyrsiau i ddysgu Cymraeg yn isel, gyda Chymdeithas Tai Wales & West Cyf, Cartrefi Conwy Cyf a Chymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf yn nodi bod nifer o staff yn dewis mynychu cyrsiau i ddysgu'r Gymraeg ar hyn o bryd.

15 person a gadarnhaodd eu bod yn darparu hyfforddiant er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar hyn o bryd, gydag 20 yn hysbysu staff ar y gofynion sydd arnynt i weithredu'r cynllun iaith Gymraeg.

### Safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio [136-140]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan bob un ymrwymiadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 65% o'r safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio.

Nododd 18 o'r 37 person perthnasol eu bod yn cynnal asesiad (drwy ddulliau ffurfiol neu anffurfiol) o'r angen am sgiliau iaith Gymraeg mewn perthynas â swyddi newydd neu swyddi gwag a hysbyseb. Wrth gynnal yr asesiad, ystyrir anghenion busnes y sefydliad ochr yn ochr â gofynion y cynllun iaith Gymraeg presennol. Derbyniwyd sylwadau pellach ynghylch priodoldeb gosod safonau 136/136A arnynt, a hynny gan ystyried y diffyg galw tybiedig am wasanaethau Cymraeg gan denantiaid; y ganran isel o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned a wasanaethir; a'r lleihad posibl yn nifer yr ymgeiswyr a geir wrth hysbysebu swyddi ag amodau iaith.

Er enghraifft, nododd Cartrefi Melin Cyf nad oedd ganddynt unrhyw gwsmeriaid na phreswylwyr a oedd yn siarad Cymraeg, ac o ganlyniad, nad oedd sgiliau Cymraeg erioed wedi bod yn ofyniad wrth hysbysebu swyddi. Pwysleisiwyd ei fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar eu cwsmeriaid, ac felly y dylai unrhyw ofyniad ieithyddol fod yn unol â lefel y cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg. Yn ogystal, mynegodd Grŵp Hendre ei bod eisoes yn anodd recriwtio staff gofal ar hyn o bryd, ac y byddai cynnwys gofyniad iaith Gymraeg mewn disgrifiad swydd yn ychwanegu at yr anhawster recriwtio.



## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Cadarnhaodd naw person perthnasol eu bod yn categoreiddio pob swydd fel un sydd â'r Gymraeg yn ddymunol. Ymhellach, nododd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf a Grŵp Cynefin fod sgiliau iaith Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer pob swydd newydd, gyda Thai Ceredigion Cyf yn nodi bod pob swydd newydd sy'n delio â chwsmeriaid yn dynodi'r Gymraeg fel sgil hanfodol.

Pum person perthnasol a nododd ei fod yn arfer cyfredol iddynt ddatgan mewn hysbyseb am swydd bod croeso i unigolion wneud cais am swydd yn Gymraeg ac na fyddai cais yn y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. At hynny, nododd 13 person ei fod yn arfer cyfredol iddynt ddarparu deunydd recriwtio, yn unol â safon 137A, yn Gymraeg.

Hafan Cymru, Cymdeithas Tai Cantref Cyf a Thai Ceredigion Cyf yn unig a gadarnhaodd bod eu ffurflenni cais yn rhoi lle i'r ymgeisydd nodi y byddai'n hoffi cael cyfweliad neu asesiad yn y Gymraeg. Er hynny, dylid nodi bod Cymdeithas Tai Gogledd Cymru Cyf, Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf a Grŵp Cynefin wedi cadarnhau eu bod yn gallu cynnal cyfweliad ac asesiadau yn Gymraeg (neu drwy wasanaeth cyfieithu).

### Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [141-143]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan bob un ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, ar gyfartaledd roedd ymrwymadau'n cyfateb i 68% o'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.

Cadarnhaodd 20 o'r 37 person perthnasol (54%) fod arwyddion sy'n cael eu harddangos y tu mewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg. O'r rhai hynny, naw person perthnasol a nododd mai eu harfer cyfredol yw gosod testun Cymraeg ar arwyddion fel mai hwnnw'n sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

### Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [144]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 5% ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Nododd deg o'r 37 person perthnasol fod cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud yng ngweithle'r sefydliad ar hyn o bryd. O'r rhai hynny, Grŵp Cynefin yn unig a nododd eu bod yn gwneud y cyhoeddiadau hyn yn Gymraeg.

Nododd Grŵp Gwalia Cyf y byddai'n rhesymol gwneud cyhoeddiadau safonol a recordiwyd ymlaen llaw yn Gymraeg, ond byddai'r disgwyliad i wneud cyhoeddiad *ad hoc* yn Gymraeg yn afresymol. Un o'r rhesymau dros hynny oedd y ganran isel o staff sydd â sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. Ategwyd y sylw hwnnw gan Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Cyf a Chymdeithas Tai Linc-Cymru Cyf.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [167-172]**

Nododd 20 o'r 37 person perthnasol (54%) y byddai gwneud yr holl safonau, neu ddeholiad ohonynt, yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd y mwyafrif o'r personau hynny ei fod yn arfer cyfredol iddynt weithredu gofynion tebyg i'r safonau atodol wrth iddynt adrodd ar weithrediad eu cynllun iaith Gymraeg.

Er hynny, ymysg y pryderon a fynegwyd gan bersonau eraill ynghylch y safonau dan sylw roedd goblygiadau adnoddau a chost bosibl gweinyddu gofynion y safonau atodol ynghyd â biwrocratiaeth y gofyniad i gasglu a darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg.

Cadarnhaodd Pennaf Cyf eu bod nhw eisoes wedi mabwysiadu polisi cwynion enghreifftiol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ategwyd y sylw hwnnw gan Gymdeithas Tai Taf Cyf, gan nodi eu bod yn darparu gwybodaeth ar eu perfformiad i Lywodraeth Cymru yn ogystal; nodwyd bod hynny'n codi cwestiynau ynghylch yr angen i'r sector gael ei reoleiddio ymhellach gan Gomisiynydd y Gymraeg, gan ystyried y caiff ei reoleiddio gan eraill yn barod. Dylid nodi mai swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw rheoleiddio cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.

### **Safonau hybu [145-146]**

Cadarnhaodd Tai Ceredigion Cyf eu bod yn cydsynio i fod yn gymwysadwy i safonau hybu a'u bod yn ystyried gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau cadw cofnodion [147-154]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan bob un ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O'r personau hynny, roedd ymrwymadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 87% o'r safonau ynghylch cadw cofnodion.

Roedd 22 person perthnasol (59%) yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nodwyd gan y personau perthnasol hynny eu bod eisoes yn cadw cofnodion ar weithrediad eu cynlluniau iaith Gymraeg presennol, ac y byddai modd ehangu ar y systemau hynny i adlewyrchu gofynion y safonau.

Mynegodd Cartrefi Cymunedol Gwynedd nad oes sicrwydd pa drefniadau newydd fyddai eu hangen i weithredu'r safonau cadw cofnodion heb dderbyn mwy o fanylion ar ddisgwyliadau monitro, ynghyd â ffurf cyflwyno'r wybodaeth i'r Comisiynydd.

Nododd Tai Cymunedol Bron Afon Cyf, Grŵp Hendre, Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyf, Cymdeithas Tai Sir Fynwy Cyf, Hafan Cymru a Grŵp Seren Cyf fod ganddynt bryderon ynghylch cost gweithredu'r safonau hyn, gyda dau ohonynt yn nodi y byddai angen cyflogi aelod newydd o staff i gydymffurfio â'r safonau. Roedd Grŵp Hendre o'r farn y byddai'r gost ychwanegol yn dargyfeirio'r sefydliad oddi wrth ei brif bwrpas busnes.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Er y nododd Cymdeithas Tai Aelwyd Cyf y byddai modd cydymffurfio a'r safonau hyn, roeddynt o'r farn bod maint y sefydliad, ynghyd â'r defnydd isel tybiedig am wasanaeth Cymraeg yn gwneud y gofyniad o gadw cofnod ffurfiol o'r wybodaeth yn anghymesur. Roedd tri pherson perthnasol arall yn rhannu'r safbwynt hwn.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [175-176]**

Roedd 22 person perthnasol (59%) yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â'r materion atodol dan sylw yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd 10 person perthnasol (27%) eu bod yn ystyried gwneud safonau 175 -176 yn benodol gymwys iddynt yn afresymol a anghymesur. Ni chafwyd tystiolaeth ynghylch y safonau atodol gan bump person perthnasol.

Roedd Cartrefi Melin Cyf a Chymdeithas Tai Taf Cyf yn ystyried bod y safonau yn rhesymol a chymesur, ond y byddai hynny'n ddibynnol ar bu'n a fyddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei gynnwys ac ar lefel y fiwrocratiaeth.

Nododd Cartrefi CNPT Cyf eu bod o'r farn y byddai'r safonau hyn yn dod â llwyth gwaith ychwanegol ac na ellir ystyried goblygiadau hynny hyd nes y bydd rhagor o wybodaeth am ofynion y safonau a pha drefniadau cadw cofnodion sydd yn ofynnol gan y Comisiynydd.

## 5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Derbyniwyd 172 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. Derbyniwyd 94 o ymatebion i'r ymchwiliad safonau gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan.

Derbyniwyd 78 ymateb pellach yn seiliedig ar dempled o ymateb safonol a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; yn yr achos hwn roedd yr holl ymatebion yr un fath. Mewn chwech o achosion, derbyniwyd ymateb gan unigolion ddwywaith. Derbyniwyd dau ymateb gan fudiadau neu sefydliadau eraill<sup>4</sup> Mae'r Comisiynydd wedi rhoi sylw i bob ymateb a dderbyniwyd.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi yn Atodiad B.

Mae Ffigur 1 yn dangos o ble daeth yr ymatebwyr yn ôl eu grŵp a'u lleoliad daearyddol.

**Ffigur 1 Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl lleoliad<sup>5</sup>**

Lleoliadau	Nifer	Canran (%)
Abertawe	8	5%
Blaenau Gwent	0	0%
Bro Morgannwg	10	6%
Caerffili	5	3%
Casnewydd	1	1%
Castell-nedd Port Talbot	2	1%
Ceredigion	18	10%
Conwy	9	5%
Caerdydd	17	10%
Gwynedd	35	20%
Merthyr Tudful	2	1%
Pen-y-bont ar Ogwr	1	1%
Powys	5	3%
Rhondda Cynon Taf	3	2%
Sir Benfro	4	2%

<sup>4</sup> Ceir rhestr o'r mudiadau/sefydliadau hynny yn Atodiad B yr adroddiad safonau.

<sup>5</sup> Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys yr holl ymatebion a ddaeth drwy'r holiadur, ynghyd â thempled Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Sir Ddinbych	10	6%
Sir Fynwy	2	1%
Sir Gaerfyrddin	4	2%
Sir y Fflint	4	2%
Torfaen	2	1%
Wrecsam	8	5%
Ynys Môn	13	8%
Tu allan i Gymru	5	3%
Heb ateb	4	2%
<b>Cyfanswm</b>	<b>172</b>	<b>100%</b>

### Ymateb y cyhoedd i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas â Chyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

#### Safonau cyflenwi gwasanaethau


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw fod yn cynnal gweithgareddau safonau cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg, er mwyn eich galluogi chi fel aelod o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?

Wrth ateb y cwestiwn hwn yn rhan o'r holiadur, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb fesul gweithgaredd sydd o fewn cwrpas safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae Ffigur 2 yn dangos amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd.

**Ffigur 2 Ymateb i gwestiwn 1 yr holiadur - Safonau cyflenwi gwasanaethau<sup>6</sup>**



### Safonau llunio polisi

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau llunio polisi, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai penderfyniadau polisi'r sefydliadau dan sylw wella'r cyfleoedd sydd i chi ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg?

O'r 94 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 97% (91) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 91 a ymatebodd, roedd 91% (84) yn cytuno gyda'r uchod.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

<sup>6</sup> Ni ofynnwyd cwestiynau mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol na pheiriannau hunanwasanaeth.

Ffigur 3 Ymateb i gwestiwn 3 yr holiadur - Safonau llunio polisi<sup>7</sup>



### Safonau gweithredu

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau gweithredu, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu?

O'r 94 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 98% (92) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 92 a ymatebodd, roedd 92% (85) yn cytuno gyda'r uchod

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 4 Ymateb i gwestiwn 4 yr holiadur - Safonau gweithredu<sup>8</sup>



<sup>7</sup> Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

<sup>8</sup> Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

### **Safonau cadw cofnodion**

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cadw cofnodion, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw gadw cofnod yn dweud sut y mae'n cadw at safonau'r Gymraeg a chadw cofnodion am gwynion?

O'r 94 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, roedd 98% (92) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 92 a ymatebodd, roedd 91% (84) yn cytuno y dylai'r ddyletswydd hon gael ei gosod ar y personau perthnasol dan sylw.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

**Ffigur 5 Ymateb i gwestiwn 5 yr holiadur - Safonau cadw cofnodion<sup>9</sup>**



### **Sylwadau pellach**


Yn ogystal â darparu ymatebion i gwestiynau penodol ar bwnc yr ymchwiliad safonau, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd nodi unrhyw safonau ychwanegol yr oeddynt o'r farn y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau perthnasol dan sylw, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad safonau hwn.

O'r 94 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, darparodd 54% (51) ohonynt sylwadau ychwanegol i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

<sup>9</sup> Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.



Ffigur 6 Sylwadau pellach a ddarparwyd gan aelodau'r cyhoedd



Yn yr un modd â'r cylchoedd blaenorol, roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan yr holl sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghylch 3.

Mynegwyd cryn awydd unwaith eto gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rhai sy'n glir, cadarn a dealladwy i bobl gyffredin. Ategwyd hynny gan nodi mai drwy hynny'n unig y sicrheir y caiff hawliau siaradwyr Cymraeg eu diogelu.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- Yr angen i sicrhau bod pob sefydliad sydd yn darparu gwasanaethau yng Nghymru yn ddarostyngedig i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan osgoi'r anghysonderau posibl a ddaw o weithredu dwy gyfundrefn statudol.
- Yr angen i sicrhau bod safonau yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn ddiodyn, gan sicrhau bod y cysyniad o gynnig rhagweithiol yn gyson drwyddi draw.
- Sicrhau nad yw'r broses o ddyfarnu neu ddelio â thendr neu gontract uwchlaw'r angen am osod amodau iaith Gymraeg ar y grantiau/contractau a ddsberthir gan sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 3.
- Yr angen i sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb-yn-wyneb yn mynd y tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw.
- Yr angen i sicrhau eglurder bod y diffiniad o gyfarfodydd personol yn cynnwys pob cyswllt wyneb-yn-wyneb.
- Yr angen i bennu safon sydd yn gosod gofynion clir ar bolisiâu recriwtio sefydliadau.

Derbyniwyd rhai ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddyletswyddau iaith.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn erbyn gwneud y safonau'n benodol gymwys isod:

- Yr angen i ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar y Gymraeg.
- Blaenoriaethu meysydd polisi eraill dros y Gymraeg.
- Perthnasedd y Gymraeg yng Nghymru.

- Anghytuno â'r gofyniad y dylai'r Gymraeg ymddangos neu gael ei chyhoeddi'n gyntaf.
- Biwrocratiaeth y gofynion.

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

Derbyniwyd nifer o ymatebion oedd o'r farn y dylai bob un o'r sefydliadau yng nghylch 3 orfod gohebu â'r cyhoedd yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Aeth rhai ymatebwyr ymlaen i nodi pwysigrwydd sicrhau mai cyfeiriadau a ffurfiau Cymraeg a ddefnyddir wrth ohebu ag unigolyn yn Gymraeg. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn gam sylweddol tuag at hybu'r iaith Gymraeg ac i annog dinasyddion i ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o leoliadau.

Cred un ymatebwr bod y ddarpariaeth gan gymdeithasau tai o ran gohebu'n Gymraeg i denantiaid yn dameidiog, a bod angen sicrhau bod dyletswyddau clir arnynt yn hynny o beth. Yn yr un modd, cyfeiriodd rhai at bwysigrwydd gosod y dyletswyddau hyn ar y gwasanaethau post. Er hynny, roedd un ymatebwr o'r farn bod y safonau fel y'u drafftwyd yn anymarferol mewn ardaloedd lle mai'r Gymraeg yw'r iaith fwyafrifol. Yn yr un modd, derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn nodi mai ar gais yn unig y dylid darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, a hynny am resymau amgylcheddol ac economaidd.

Wrth ystyried y safonau mewn perthynas â chyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus, roedd nifer helaeth o'r ymatebwyr o'r farn y dylid sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i fynegi eu hunain yn y Gymraeg, ac felly y dylid sicrhau bod gofyniad arnynt i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, neu gynnal y cyfarfod yn Gymraeg. Roedd eraill o'r farn y dylid sicrhau'r gwasanaeth hwnnw pan fo galw digonol am y gwasanaeth.

Cyflwynwyd pryderon ynghylch cwmpas y safonau mewn perthynas â chyfarfodydd rhwng corff ac unigolyn, a hynny gyda golwg ar wasanaethau cownteri a ddarperir mewn swyddfeydd post. Dymuna'r ymatebwr hwn i Weinidogion Cymru sicrhau bod y gwasanaethau hynny wedi eu cynnwys o fewn y diffiniad. Yn yr un modd, roedd o'r farn y dylai gwasanaethau a ddarperir yn nhŷ cwsmeriaid gan gwmnïau dŵr ddod o fewn cwmpas y safonau hyn.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau gwasanaeth derbynfa gyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegwyd rhwystredigaeth gan rai ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd, gyda nifer o dderbynfeydd yn cyfarch yn Gymraeg ond methu delio'n llawn â'u hymholiadau hwy. Roedd eraill o'r farn y gallai'r gofyniad hwn fod yn her sylweddol i nifer o sefydliadau sydd yn gweithredu nifer o dderbynfeydd tu hwnt i'w prif dderbynfa. Cafodd y sylwadau hyn eu hategu mewn perthynas â gwasanaeth ffôn nifer o'r sefydliadau sydd yn rhan o gylch 3.

Yng nghyd-destun y safonau'n ymwneud â chynhyrchu dogfennau a ffurflenni, roedd nifer o ymatebwyr yn ystyried ei bod yn fwy na rhesymol disgwyl i'r sefydliadau yng nghylch 3 sicrhau bod y cyhoeddiadau hynny ar gael yn Gymraeg. Aeth un ymatebwr ymlaen i nodi bod modd i ddogfennau a ffurflenni gael eu cynhyrchu fel dogfennau dwyieithog ar-lein yn unig erbyn hyn, a thrwy hynny sicrhau bod costau cynhyrchu'n llawer is. Er hynny, roedd rhai o'r farn y dylai fod elfen gref o flaenoriaethu yma, a hynny ar sail y gynulleidfa darged, gydag eraill o'r farn mai ar gais yn unig y dylai'r dogfennau hyn gael eu cynhyrchu yn Gymraeg.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Derbyniwyd nifer o ymatebion gan y cyhoedd oedd yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod y sefydliadau dan sylw yn sicrhau arwyddion dwyieithog ar bob achlysur. Aeth rhai o'r ymatebwyr hynny ymlaen i nodi pwysigrwydd sicrhau mai'r Gymraeg fyddai'n cael blaenoriaeth, a hynny er mwyn sicrhau cysondeb ieithyddol ar draws Cymru. Er hynny, derbyniwyd rhai sylwadau oedd o'r farn na ddylid gweithredu yn y modd hwnnw, a hynny er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw ddryswch i'r di-Gymraeg ac ymwelwyr i Gymru.

Wrth ystyried gwefannau a gwasanaethau ar-lein a ddarperir gan sefydliadau cylch 3, roedd cefnogaeth gref ar y cyfan i sicrhau gwefannau dwyieithog, a hynny gan ystyried y cynnydd yn y gwasanaethau a gynigir drwy'r cyfrwng hwn bellach, gyda rhai achosion pan fo'r gwasanaethau hynny ar gael drwy'r cyfrwng hwnnw'n unig.

Aeth rhai ymlaen i nodi'r problemau a geir gan sefydliadau sydd yn defnyddio ffeil cyfeiriadau Grŵp y Post Brenhinol, a hynny oherwydd diffyg cysondeb yn y gronfa ddata honno (PAF) o ran enwau lleoedd Cymraeg. Golyga hyn fod nifer o ffurflenni neu lythyrau a dderbynnir ganddynt â chyfeiriadau uniaith Saesneg arnynt, ac a fyddai'n peri iddynt fethu â chydymffurfio â'r safonau.

### Safonau llunio polisi

Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr bod yn rhaid i bolisiâu'r sefydliadau dan sylw arddel yr egwyddor o gydraddoldeb, gan sicrhau eu bod yn cyflogi digon o siaradwyr Cymraeg er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn yr iaith honno. Cyfeiriodd un ymatebwr yn benodol at gymdeithasau tai, gan nodi bod angen iddynt hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned.

### Safonau gweithredu

Derbyniwyd tystiolaeth gan nifer oedd o'r farn ei bod yn gwbl resymol ac yn gymesur i'r lefel uchaf o safonau gweithredu gael eu gosod ar y cyrff hynny sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 3, a hynny gan ystyried bod y cyrff hyn yn derbyn arian cyhoeddus sylweddol neu'n gwmnïau a ddylai weithredu er budd y cyhoedd.

Er hynny, roedd un ymatebwr o'r farn nad oedd y safonau gweithredu fel y'u drafftwyd ar gyfer y cylch cyntaf yn cyflawni'r amcan o sicrhau bod rhagor o sefydliadau yn gweithio'n fewnol yn Gymraeg yn unig. Cyfeiriwyd at Gartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf fel sefydliad amlwg lle y dylai hynny ddigwydd yn ddiamod. Aeth ymlaen i nodi y dylai safon 136 gael ei hamrywio fel bod modd i Gomisiynydd y Gymraeg osod safon lle y disgwylir iddynt hysbysebu swyddi fel rhai lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol yn unig, a hynny er mwyn gwarchod y polisi cyfredol.

Sylw cyffelyb a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd oedd yr angen i sicrhau y gosodir yr un safonau ar ddarparwyr tai cymdeithasol ag y gwnaethpwyd mewn perthynas ag awdurdodau lleol. Canlyniad hynny fyddai sicrhau'r un lefel o wasanaeth yn ddaearyddol.

### Safonau cadw cofnodion

Derbyniwyd nifer o sylwadau oedd yn cefnogi'r angen i sefydliadau gadw cofnodion, a hynny er mwyn sicrhau'r gallu i fonitro ac i archwilio cydymffurfiaeth â'r safonau eraill. Er hynny, roedd rhai o'r farn bod elfennau o'r gofynion yn fiwrocraidaidd ar gyfer sefydliadau sydd yn gweinyddu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg, gydag eraill o'r farn nad yw cadw cofnodion yn weithgaredd effeithiol er mwyn gwella ansawdd ac ystod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

### Safonau Hybu

Derbyniwyd tystiolaeth oedd o'r farn y dylid sicrhau bod safonau hybu yn cael eu gwneud yn benodol gymwys i Gymdeithasau Tai, a hynny ar y sail eu bod yn cyflawni swyddogaeth bwysig i nifer fawr iawn o bobl, gan gynnwys nifer o'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas. O'r herwydd, roeddent yn ystyried bod ganddynt rôl amlwg o ran hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Aeth ymatebwr arall ymlaen i nodi ei syndod nad oes mwy o gyrff yn ddarostyngedig i'r safonau hybu, gan gynnwys Darparwyr Tai Cymdeithasol; cyrff sydd â chyswllt agos â'r gymuned ac sydd â dylanwad grymus yn lleol.

## 6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y Panel Cynghori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63(3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gan gydnabod y bydd pryder ymysg y rheini a gaiff eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg, pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod pawb yn deall gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; y Ddeddfwriaeth a ysgogodd ddyfodiad y safonau hyn.

Yn yr un modd â'r hyn a nodwyd yng nghyswllt y personau y cynhaliwyd ymchwiliadau safonau arnynt yng nghylch 2, roedd y Panel o'r farn y dylid ystyried sut y bydd rhai safonau yn cael eu gweithredu mewn modd 'rhesymol a chymesur' wrth osod y gofynion mewn hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 y Mesur.

Ategwyd hynny gan nodi y gellir ystyried rhesymoldeb a chymesuredd mewn un o ddwy ffordd, sef; pennu safonau gwahanol i bersonau mewn ardaloedd gwahanol o Gymru gan adlewyrchu natur ieithyddol yr ardaloedd perthnasol neu bennu safonau cyffredin ar draws Cymru gan ddatgan diwrnodau gosod gwahanol ar gyfer pryd y bydd yn ofynnol iddynt orfod cydymffurfio â safon(au) e.e. pan fo angen elfen o hyfforddiant staff er mwyn cydymffurfio â safon, caniatáu rhagor o amser i berson gydymffurfio â safon o'i gymharu â pherson lle mae adnoddau staff priodol ar gael eisoes.

Roedd rhai aelodau o'r Panel yn ystyried y dylid gweithredu'r safonau mewn modd sydd yn adlewyrchu patrwm iaith y gwahanol ardaloedd. Cyfeiriwyd yn benodol at gyrff Llywodraeth y DU yn y cyswllt hwn. Pwysleisiwyd unwaith eto y dylid sicrhau bod unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod ar bersonau tebyg yn nodi'r amgylchiadau hynny lle bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â safon(au).

Wrth ystyried y gweithgareddau a geir o dan y safonau cyflenwi gwasanaethau, cyfeiriwyd yn benodol at gyrsiau addysg a gynigir i'r cyhoedd gan nodi eu bod o'r farn y dylid asesu'r angen, gan ymchwilio i'r bylchau sydd o safbwynt cynnwys, cyn ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r gofyniad.

## 7 Casgliadau'r ymchwiliad safonau

### Sylwadau cyffredinol

Daethpwyd i'r casgliadau isod ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y person perthnasol, y cyhoedd a'r Panel Cyngori i bwnc yr ymchwiliad safonau, ynghyd â thystiolaeth annibynnol a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yng nghyd-destun cynllun iaith y person perthnasol dan sylw.

Nodir ym Memorandwm Esboniadol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai un o brif amcanion y Ddeddfwriaeth oedd moderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf 1993. Yn yr un modd, nodir mai nod Llywodraeth Cymru wrth Ddeddfu oedd sicrhau gwell cysondeb rhwng personau, yn enwedig rhwng personau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Gymraeg.

Yn yr un modd, nodir bod adran 42 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person yn gwneud y gweithgareddau hynny a'r graddau y mae hynny'n digwydd.

Er hynny, dylid nodi nad oes rhaid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon yn y Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau bod person yn gwneud y gweithgaredd<sup>10</sup>, p'un a yw hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddynt. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwmpas gweithgaredd.

Ategwyd hynny gan ymateb Gweinidogion Cymru i adroddiadau a chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chylch 2 o'i hymchwiliadau safonau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015 ac sy'n nodi'r canlynol:

Os bydd o leiaf un sefydliad o fewn sector wedi nodi ei fod yn ymgymryd â gweithgaredd, mae'r Comisiynydd wedi dod i'r casgliad y dylai'r safonau drafft sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys i'r holl sefydliadau o fewn y sector hwnnw. Mae Gweinidogion Cymru'n cefnogi'r dull hwn gan ei fod yn dilyn cynsail a sefydlwyd yn y gyfres gyntaf o Reoliadau, a olygodd fod yr un safonau'n gymwys i sefydliadau o fewn yr un sector.<sup>11</sup>

<sup>10</sup> Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

<sup>11</sup> <http://gov.wales/topics/welshlanguage/response-to-welsh-language-standards-investigation/?lang=cy&ghq>

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

Er hynny, lle ceir tystiolaeth nad yw person yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a ddaw yn rhan o'r ymchwiliad safonau, neu drwy ddulliau eraill, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt, oni bai bod rhesymau dilys dros wneud hynny.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Safonau y dylid eu gwneud yn benodol gymwys i ddarparwyr tai cymdeithasol

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

Unwaith eto, dymuna'r Comisiynydd nodi pwysigrwydd gwahaniaethu'n glir rhwng ymrwymadau person (yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohono) a pherfformiad (i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd). Mae pob cynllun iaith Gymraeg yn dwyn awdurdod llawn y sefydliad wrth ddod i gytundeb ar gynnwys. Byddai peidio â phennu safonau sy'n gydradd, â'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau dan sylw, yn gam yn ôl ac yn mynd yn groes i fwriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nodir bod perfformiad, ynghyd â'r graddau y gall person gydymffurfio â safon ar gyfnod amser penodol, yn fater ymarferol. Gall y graddau hynny wella, gwaethygu neu aros yr un fath. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylai ymrwymadau ddiwallu anghenion defnyddwyr y Gymraeg y maent yn eu gwasanaethu, gydag amserlen resymol wedi ei phennu ar gyfer delio ag unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y rhwystrau hynny wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cydnabyddir i'r personau adnabod heriau a rhwystrau posibl i gydymffurfiaeth lawn â rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Serch hynny, mae'r Comisiynydd o'r farn y gellid cwrdd ag ymrwymadau sy'n gymesur ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg gydag amserlen resymol ar gyfer gweithredu ac ymdrin ag unrhyw heriau. Cydnabyddir hefyd fod y personau wedi nodi nad oeddynt yn gwneud pob un o'r gweithgareddau dan sylw. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y sector, pan fo o leiaf un person yn y grŵp wedi nodi eu bod yn gwneud gweithgaredd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid gwneud y gweithgaredd hwnnw'n benodol gymwys i'r holl bersonau yn y grŵp hwnnw.

Mynegodd pob un o aelodau'r grŵp fod ambell un o'r safonau yn afresymol ac anghymesur o fewn pob gweithgaredd. Mynegodd pob un o aelodau'r grŵp eu bod eisoes yn cydymffurfio â nifer o'r safonau o fewn pob gweithgaredd yn ogystal. Ymhellach, roedd gwneud pob un o'r gweithgareddau yn arfer cyfredol gan o leiaf 70% o aelodau'r grŵp.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr anghysonderau hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio unigol a gyflwynir ymysg y sefydliadau unigol o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Casgliad 1:** Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i ddarparwyr tai cymdeithasol:

- gohebiaeth a anfonir gan gorff
- galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff
- cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
- corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
- defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- peiriannau hunanwasanaeth
- arwyddion a arddangosir gan gorff
- derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
- corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
- corff yn dyfarnu grantiau
- corff yn dyfarnu contractau
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
- hunaniaeth gorfforaethol corff
- cyrsiau a gynigir gan gorff
- systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

### Safonau llunio polisi

Mae'r mesurau gofynnol sy'n sail ar gyfer cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld ar ffurf canllawiau statudol a gymeradwywyd gerbron Tŷ'r Cyffredin (cymeradwywyd Canllawiau ar Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith gan Senedd y DU ar 19 Gorffennaf 1995). Nodir yn y canllawiau hynny y dylai sefydliadau orfod pennu'r mesurau y bwriedir eu cymryd wrth asesu effaith polisiâu, strategaethau a mentrau newydd, a'u gweithredu.

Cred y Comisiynydd y dylai sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru ystyried yr effaith y gall eu polisiâu gael ar y Gymraeg, a sut y gellir creu polisiâu sydd yn ymgynraedd at y nod o sicrhau un neu ragor o'r canlyniadau a ganlyn fel y nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

*Bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried pa effeithiau , os o gwbl, (a ph'un ai yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael –*

- (a) ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu*
- (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*



*Yr ail o'r canlyniadau hynny yw bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif –*

- (a) ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu*
- (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

*Y trydydd o'r canlyniadau hynny yw bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniadau fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol –*

- (a) ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu*
- (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<sup>12</sup>*

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai penderfyniadau polisi Darparwyr Tai Cymdeithasol wella'r cyfleoedd sydd ar gael i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliad hwn yw fod disgwyl eisoes i nifer o'r personau hyn asesu goblygiadau ieithyddol polisiâu a mentrau newydd yn ystod y broses o'u creu a'u hadolygu. Cadarnhawyd hyn oll yn y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol fel rhan o'r ymchwiliad safonau hwn. Ceir tystiolaeth wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg bod ymrwymiad eisoes drwy gynllun iaith cyfredol y personau dan sylw i ddarparu'r gweithgaredd. Mae gan 97% ohonynt ymrwymadau sy'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn i un neu ragor o'r safonau dan sylw. Yn ogystal, nododd cyfanswm o 57% o'r personau yn yr adroddiad hwn y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddynt.

Cydnabyddir bod materion wedi'u hamlygu ynghylch gallu rhai o'r personau i gydymffurfio â holl ofynion y safonau llunio polisi. Nododd 15 o'r personau perthnasol nad ydynt yn ymgynghori ar unrhyw benderfyniadau polisi ar hyn o bryd, gyda 28 yn nodi nad oes ganddynt bolisi ar ddyfarnu grantiau, a hynny mewn nifer o achosion oherwydd nad oedd dyfarnu grantiau yn elfen o'u swyddogaeth hwy. O'r herwydd, nid oeddent yn ystyried bod y safonau hynny'n berthnasol iddynt. Derbyniwyd sylwadau tebyg gan Grŵp Cynefin, er y nodir eu bod yn darparu grantiau bychan o hyd at £500 tuag at weithgareddau neu brosiectau lleol. Dylid nodi nad yw'r rheoliadau cyfredol yn cyfeirio at gyfansymiau mewn perthynas â dyfarnu grantiau. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr amgylchiadau hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Casgliad 2: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau llunio polisi fod yn benodol gymwys i ddarparwyr tai cymdeithasol.**

<sup>12</sup> Adran 29 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

## Safonau gweithredu

Noda adran 30 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai ystyr safon gweithredu yw:

*safon y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg*

- (i) *gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,*
- (ii) *gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu*
- (iii) *gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.*

Derbyniwyd tystiolaeth gan nifer o'r personau perthnasol a nododd na fyddai gwneud y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Ymysg y prif bryderon a nodwyd oedd y diffyg galw tybiedig am wasanaethau Cymraeg gan staff ar hyn o bryd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod amrywiaeth gymhleth o resymau sy'n effeithio ar y defnydd a'r galw a wneir am wasanaethau Cymraeg, gan gynnwys diffyg mynediad, amlygrwydd ac argaeledd darpariaeth gyfredol yn ogystal ag ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth honno.<sup>13</sup>

Fel y nodwyd mewn datganiad ysgrifenedig gan Brif Weinidog Cymru wrth bennu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 mewn perthynas â sefydliadau yng Nghylch 1, bydd y safonau yn chwarae rhan allweddol i sefydlu fframwaith sy'n sicrhau y gall pobl fod yn hyderus yn y gwasanaethau a gânt yn Gymraeg, a'u bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl.<sup>14</sup> Cred y Comisiynydd bod yr egwyddor honno yr un mor wir ar gyfer cyflogeion sydd yn ymgymryd â'u gweithgareddau perthnasol ag y mae ar gyfer aelodau o'r cyhoedd.

Mynegir yn natganiad polisi 'laith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen' y bydd y safonau yn 'gatalydd pwysig ar gyfer gwella sut mae sefydliadau yn ystyried datblygu sgiliau Cymraeg eu gweithlu.'<sup>15</sup> Byddai peidio â gwneud y safonau gweithredu yn benodol gymwys i ddarparwyr tai cymdeithasol yn cyfyngu ar hawliau eu cyflogeion, yn llesteirio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithleoedd hyn, ac yn mynd yn groes i brif amcanion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ynghyd â'r nodau a amlinellir yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg: 'laith fyw: iaith byw (Strategaeth y Gymraeg 2012-2017)'.<sup>16</sup>

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod bod rhai elfennau ynghlwm â'r safonau gweithredu yn newydd i nifer o'r personau perthnasol yn yr adroddiad safonau hwn. I'r un perwyl, derbyniwyd rhai enghreifftiau lle nad oes trefniadau ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion ar hyn o bryd. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er hyn, mae'n bwysig nodi bod nifer o'r gofynion eisoes yn ddyletswydd ar nifer o'r personau perthnasol wrth iddynt gydymffurfio â'r ymrwymadau yn eu cynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys ymdrin â materion ieithyddol yn y meysydd

<sup>13</sup> [https://www.citizensadvice.org.uk/global/migrated\\_documents/corporate/hefyd-ar-gael-yn-y-gymraeg--mawrth-2015.pdf](https://www.citizensadvice.org.uk/global/migrated_documents/corporate/hefyd-ar-gael-yn-y-gymraeg--mawrth-2015.pdf)

<sup>14</sup> <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/welshlangstandards/?lang=cy>

<sup>15</sup> <http://gov.wales/topics/welshlanguage/policy/living/moving-forward/?lang=cy>

<sup>16</sup> <http://gov.wales/topics/welshlanguage/publications/wlstrategy2012/?lang=cy>

recriwtio ac apwyntio ynghyd â sicrhau bod y sefydliad yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.

Amlygir o'r dystiolaeth bod o leiaf un o'r personau perthnasol eisoes yn ymgymryd, yn rhannol neu'n llawn, â phob un o'r gweithgareddau perthnasol a nodir yn y safonau gweithredu. Yn yr un modd, roedd o leiaf un person perthnasol yn y grŵp yn ei wneud yn Gymraeg ar hyn o bryd.

I'r perwyl hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad ei bod yn rhesymol a chymesur i'r personau hyn alluogi eu gweithwyr i wneud eu gweithgareddau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gyda'r elfennau hynny nad ydynt wedi eu gwreiddio yn eu cynllun iaith Gymraeg, neu nad ydynt yn weithredol ar hyn o bryd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y byddai'n rhesymol a chymesur caniatáu amser digonol i ymgynraedd at y nod polisi newydd hwn, yn ogystal â chynnwys mesurau lleddfu eraill mewn hysbysiadau cydymffurfio, lle bo'n briodol.

**Casgliad 3: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i ddarparwyr tai cymdeithasol:**

- safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff
- safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd
- safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- safonau ynghylch recriwtio gan gorff
- safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
- safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff

### Safonau cadw cofnodion

Wrth gyflwyno tystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, nododd 59% o'r personau perthnasol y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt.

Mae'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i'r sefydliadau dan sylw bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol. Cadarnhawyd hynny yn y dystiolaeth a dderbyniwyd, gyda'r mwyafrif o'r personau hyn, ar y cyfan, yn nodi bod y safonau cadw cofnodion, mewn egwyddor, ac yn weithredol i raddau helaeth, yn arfer cyfredol.

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Darparwyr Tai Cymdeithasol gadw cofnod yn dweud sut y maent yn cadw at safonau y disgwylir iddynt gydymffurfio â hwy, ynghyd â chwynion yn ymwneud a'u cymdymffurfedd â'r safonau a sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y gweithle.

**Casgliad 4: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i'r safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i ddarparwyr tai cymdeithasol.**

### Safonau hybu

Cadarnhaodd Tai Ceredigion Cyf eu bod yn dymuno cydsynio i wneud safonau hybu yn gymwysadwy ac yn benodol gymwys iddynt.

Nododd Gweinidogion Cymru'r isod yn eu hymateb i gasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r personau hynny y cynhaliwyd ymchwiliadau safonau iddynt yn yr ail gylch.

*Mae'r Comisiynydd hefyd yn dod i'r casgliad y dylai'r safonau hybu fod yn gymwysadwy i'r sefydliadau sydd wedi cydsynio, er nad oedd y Mesur wedi nodi y gallent fod yn gymwys iddynt.<sup>17</sup>*

Dylid nodi bod adran 38 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn (2) o gofnod 'unrhyw berson arall, ond dim ond os yw'r person wedi cydsynio y dylai safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo' yn cynnwys cyfeiriad at safonau hybu.

Derbyniwyd tystiolaeth gan aelodau o'r cyhoedd oedd o'r farn y dylid sicrhau bod safonau hybu yn cael eu gwneud yn benodol gymwys i ddarparwyr tai cymdeithasol, a hynny ar y sail eu bod yn cyflawni swyddogaeth bwysig i nifer fawr iawn o bobl, gan gynnwys nifer o'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas. O'r herwydd, roeddent yn ystyried bod ganddynt rôl amlwg o ran hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Ategwyd hynny gan y darparwr tai cymdeithasol a nododd eu dymuniad i gydsynio i safonau hybu fod yn benodol gymwys iddynt.

**Casgliad 5: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau hybu fod yn gymwysadwy ac yn benodol gymwys i Dai Ceredigion Cyf.**

**Casgliad 6: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru bennu safonau hybu amgen, gan sicrhau eu bod yn addas ac yn briodol i swyddogaethau'r personau dan sylw.**

### Safonau sy'n ymdrin â materion atodol

Ceir darpariaethau yn y Mesur sy'n ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 – Darpariaethau Atodol). Yn dilyn cymeradwyaeth 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015'<sup>18</sup> yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015, pennwyd safonau sy'n ymdrin â materion atodol o dan adran 26 y Mesur.

Noda Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol.

<sup>17</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/publications/151019-second-standards-investigations-cy.pdf>

<sup>18</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

Mae dogfen polisi Llywodraeth Cymru ‘Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio’<sup>19</sup> yn egluro mai rôl arolygwyr yw ‘gwirio’n annibynnol gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol a phŵer cyfreithiol’. Caiff hynny ei ategu gan Adroddiad Crerar ar arolygu yn yr Alban sy’n nodi mai rôl arolygwyr allanol yw darparu sicrwydd annibynnol fod gwasanaethau’n cael eu rheoli’n dda ac yn addas i bwrpas. Yn ôl Crerar, pum prif egwyddor arolygu yw’r angen i ganolbwyntio ar y cyhoedd; annibyniaeth; cymesuredd; tryloywder ac atebolrwydd. Mae cynigion Crerar yn gyson ag egwyddorion Hampton sy’n nodi y dylai arolygu ddigwydd ar sail risg; na ddylid cynnal arolygon heb reswm ac y dylai rheoleiddwyr allu rhoi cyngor awdurdodol a hygyrch. Yn yr un modd, ceir cydnabyddiaeth hefyd nad oes modd i gyrff arolygu oruchwylio popeth y mae darparwyr gwasanaethau yn ei wneud. Hynny yw, mae disgwyliad cynyddol ar ddarparwyr gwasanaeth i gael trefniadau craffu ac archwilio mewnol cadarn. Ymhellach i hynny, mae hunanasesu yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn trefniadau arolygu allanol.

Codwyd cwestiynau gan ddarparwyr tai cymdeithasol ynghylch yr angen i’r sector gael ei reoleiddio ymhellach gan Gomisiynydd y Gymraeg, gan ei fod eisoes yn cael ei reoleiddio gan gyrff megis Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Dylid nodi mai Comisiynydd y Gymraeg sydd â’r swyddogaeth dros reoleiddio cydymffurfiaeth â Safonau’r Gymraeg. Mae adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (y Mesur) yn rhoi’r pŵer i Gomisiynydd y Gymraeg ymchwilio i b’un a yw sefydliad wedi methu â chydymffurfio â gofyniad yn ymwneud â’r safonau. Er mwyn gallu ymgymryd â’r swyddogaethau rheoleiddiol hyn yn effeithiol, mae’n hanfodol bod personau perthnasol yn darparu gwybodaeth ddigonol i’r Comisiynydd er mwyn monitro cydymffurfiaeth â Safonau’r Gymraeg.

**Casgliad 7: Daw Comisiynydd y Gymraeg i’r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i’r safonau sy’n ymdrin â materion atodol fod yn benodol gymwys i ddarparwyr tai cymdeithasol.**

<sup>19</sup> <http://gov.wales/docs/dpsp/publications/inspectionpolicystatement/090930inspstatementcy.pdf>

## 8 Y camau nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64(4) y Mesur:

- pob person perthnasol
- Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg
- pob person a gymerodd ran yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod:

A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation.<sup>20</sup>

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.<sup>21</sup>

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Ran 4 y Mesur ai peidio.

Cadarnhaodd Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Hydref 2015 na fyddai'r trydydd cylch o reoliadau yn gallu cael eu datblygu cyn diwedd cyfnod y Cynulliad hwn, ac felly y byddai hynny'n fater i'r Cynulliad nesaf.

Nid oes amserlen felly ar gyfer cyflwyno rheoliadau mewn perthynas â'r person(au) hynny a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

<sup>20</sup> Adran 76(2)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

<sup>21</sup> <http://gov.wales/docs/legislation/guidance/091020riacodecy.doc>

## Atodiad A – Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 3

Yn yr un modd â'r cylchoedd blaenorol, roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan yr holl sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghylch 3.

Mynegwyd cryn awydd unwaith eto gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rhai sy'n glir, cadarn a dealladwy i bobl gyffredin. Ategwyd hynny gan nodi mai drwy hynny'n unig y sicreir y caiff hawliau siaradwyr Cymraeg eu diogelu.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- Yr angen i sicrhau bod pob sefydliad sydd yn darparu gwasanaethau yng Nghymru yn ddarostyngedig i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan osgoi'r anghysonderau posibl a ddaw o weithredu dwy gyfundrefn statudol.
- Yr angen i sicrhau bod safonau yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn ddiodyn, gan sicrhau bod y cysyniad o gynnig rhagweithiol yn gyson drwyddi draw.
- Sicrhau nad yw'r broses o ddyfarnu neu ddelio â thendr neu gontract uwchlaw'r angen am osod amodau iaith Gymraeg ar y grantiau/contractau a ddosberthir gan sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 3.
- Yr angen i sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb-yn-wyneb yn mynd y tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw.
- Yr angen i sicrhau eglurder bod y diffiniad o gyfarfodydd personol yn cynnwys pob cyswllt wyneb-yn-wyneb.
- Yr angen i bennu safon sydd yn gosod gofynion clir ar bolisiâu recriwtio sefydliadau.

Derbyniwyd rhai ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddyletswyddau iaith.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn erbyn gwneud y safonau'n benodol gymwys isod:

- Yr angen i ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar y Gymraeg.
- Blaenoriaethu meysydd polisi eraill dros y Gymraeg.
- Perthnasedd y Gymraeg yng Nghymru.
- Anghytuno â'r gofyniad y dylai'r Gymraeg ymddangos neu gael ei chyhoeddi'n gyntaf.
- Biwrocratiaeth y gofynion.

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

Derbyniwyd nifer o ymatebion oedd o'r farn y dylai bob un o'r sefydliadau yng nghylch 3 orfod gohebu â'r cyhoedd yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Aeth rhai ymatebwyr ymlaen i nodi pwysigrwydd sicrhau mai cyfeiriadau a ffurfiau Cymraeg a ddefnyddir wrth ohebu ag unigolyn yn Gymraeg. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn gam sylweddol tuag at hybu'r iaith Gymraeg ac i annog dinasyddion i ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o leoliadau.

Cred un ymatebwr bod y ddarpariaeth gan gymdeithasau tai o ran gohebu'n Gymraeg i denantiaid yn dameidiog, a bod angen sicrhau bod dyletswyddau clir arnynt yn hynny o beth. Yn yr un modd, cyfeiriodd rhai at bwysigrwydd gosod y dyletswyddau hyn ar y gwasanaethau post. Er hynny, roedd un ymatebwr o'r farn bod y safonau fel y'u drafftwyd yn anymarferol mewn ardaloedd lle mai'r Gymraeg yw'r iaith fwyafrifol. Yn yr un modd, derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn nodi mai ar gais yn unig y dylid darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, a hynny am resymau amgylcheddol ac economaidd.

Wrth ystyried y safonau mewn perthynas â chyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus, roedd nifer helaeth o'r ymatebwyr o'r farn y dylid sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i fynegi eu hunain yn y Gymraeg, ac felly y dylid sicrhau bod gofyniad arnynt i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, neu gynnal y cyfarfod yn Gymraeg. Roedd eraill o'r farn y dylid sicrhau'r gwasanaeth hwnnw pan fo galw digonol am y gwasanaeth.

Cyflwynwyd pryderon ynghylch cwmpas y safonau mewn perthynas â chyfarfodydd rhwng corff ac unigolyn, a hynny gyda golwg ar wasanaethau cownteri a ddarperir mewn swyddfeydd post. Dymuna'r ymatebwr hwn i Weinidogion Cymru sicrhau bod y gwasanaethau hynny wedi eu cynnwys o fewn y diffiniad. Yn yr un modd, roedd o'r farn y dylai gwasanaethau a ddarperir yn nhŷ cwsmeriaid gan gwmnïau dŵr ddod o fewn cwmpas y safonau hyn.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau gwasanaeth derbynfa gyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegwyd rhwystredigaeth gan rai ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd, gyda nifer o dderbynfeydd yn cyfarch yn Gymraeg ond methu delio'n llawn â'u hymholiadau hwy. Roedd eraill o'r farn y gallai'r gofyniad hwn fod yn her sylweddol i nifer o sefydliadau sydd yn gweithredu nifer o dderbynfeydd tu hwnt i'w prif dderbynfa. Cafodd y sylwadau hyn eu hategu mewn perthynas â gwasanaeth ffôn nifer o'r sefydliadau sydd yn rhan o gylch 3.

Yng nghyd-destun y safonau'n ymwneud â chynhyrchu dogfennau a ffurflenni, roedd nifer o ymatebwyr yn ystyried ei bod yn fwy na rhesymol disgwyl i'r sefydliadau yng nghylch 3 sicrhau bod y cyhoeddiadau hynny ar gael yn Gymraeg. Aeth un ymatebwr ymlaen i nodi bod modd i ddogfennau a ffurflenni gael eu cynhyrchu fel dogfennau dwyieithog ar-lein yn unig erbyn hyn, a thrwy hynny sicrhau bod costau cynhyrchu'n llawer is. Er hynny, roedd rhai o'r farn y dylai fod elfen gref o flaenoriaethu yma, a hynny ar sail y gynulleidfa darged, gydag eraill o'r farn mai ar gais yn unig y dylai'r dogfennau hyn gael eu cynhyrchu yn Gymraeg.



Derbyniwyd nifer o ymatebion gan y cyhoedd oedd yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod y sefydliadau dan sylw yn sicrhau arwyddion dwyieithog ar bob achlysur. Aeth rhai o'r ymatebwyr hynny ymlaen i nodi pwysigrwydd sicrhau mai'r Gymraeg fyddai'n cael blaenoriaeth, a hynny er mwyn sicrhau cysondeb ieithyddol ar draws Cymru. Er hynny, derbyniwyd rhai sylwadau oedd o'r farn na ddylid gweithredu yn y modd hwnnw, a hynny er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw ddryswch i'r di-Gymraeg ac ymwelwyr i Gymru.

Wrth ystyried gwefannau a gwasanaethau ar-lein a ddarperir gan sefydliadau cylch 3, roedd cefnogaeth gref ar y cyfan i sicrhau gwefannau dwyieithog, a hynny gan ystyried y cynnydd yn y gwasanaethau a gynigir drwy'r cyfrwng hwn bellach, gyda rhai achosion pan fo'r gwasanaethau hynny ar gael drwy'r cyfrwng hwnnw'n unig. Tynnwyd sylw penodol at wefannau sefydliadau sy'n gweithredu ar lefel Brydeinig e.e. adrannau Llywodraeth y DU sy'n gweithredu o fewn systemau gov.uk.

Ategwyd hynny drwy dynnu sylw at y ffaith nad oes modd ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa'r Cabinet, corff sydd â chyfrifoldeb dros y system honno, gydymffurfio â safonau heb i Weinidogion Cymru dderbyn cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Cred yr ymatebwr y gall hynny achosi problemau mawr yn y pen draw, gyda phrofiad unigolyn o wasanaeth yn ddibynnol ar ba gyfundrefn y daw'r sefydliad hwnnw oddi tano. Pwysleisiodd un ymatebwr bwysigrwydd gosod y safonau ar gyrff ac adrannau sydd heb eu datganoli, a hynny er mwyn codi ymwybyddiaeth o statws a phwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau.

Aeth rhai ymlaen i nodi'r problemau a geir gan sefydliadau sydd yn defnyddio ffeil cyfeiriadau Grŵp y Post Brenhinol, a hynny oherwydd diffyg cysondeb yn y gronfa ddata honno (PAF) o ran enwau lleoedd Cymraeg. Golyga hyn fod nifer o ffurflenni neu lythyrau a dderbynnir ganddynt â chyfeiriadau uniaith Saesneg arnynt, ac a fyddai'n peri iddynt fethu â chydymffurfio â'r safonau.

### Safonau llunio polisi

Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr bod yn rhaid i bolisiâu'r sefydliadau dan sylw arddel yr egwyddor o gydraddoldeb, gan sicrhau eu bod yn cyflogi digon o siaradwyr Cymraeg er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn yr iaith honno. Cyfeiriodd un ymatebwr yn benodol at gymdeithasau tai, gan nodi bod angen iddynt hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned.

### Safonau gweithredu

Derbyniwyd tystiolaeth gan nifer oedd o'r farn ei bod yn gwbl resymol ac yn gymesur i'r lefel uchaf o safonau gweithredu gael eu gosod ar y cyrff hynny sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 3, a hynny gan ystyried bod y cyrff hyn yn derbyn arian cyhoeddus sylweddol neu'n gwmnïau a ddylai weithredu er budd y cyhoedd.

Er hynny, roedd un ymatebwr o'r farn nad oedd y safonau gweithredu fel y'u drafftwyd ar gyfer y cylch cyntaf yn cyflawni'r amcan o sicrhau bod rhagor o sefydliadau yn gweithio'n fewnol yn Gymraeg yn unig. Cyfeiriwyd at Gartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf fel sefydliad amlwg lle y dylai hynny ddigwydd yn ddiamod. Aeth ymlaen i nodi y dylai safon 136 gael ei hamrywio fel bod modd i Gomisiynydd y Gymraeg osod safon lle y disgwylir iddynt hysbysebu swyddi fel rhai lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol yn unig, a hynny er mwyn gwarchod y polisi cyfredol.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

Sylw cyffelyb a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd oedd yr angen i sicrhau y gosodir yr un safonau ar ddarparwyr tai cymdeithasol ag y gwnaethpwyd mewn perthynas ag awdurdodau lleol. Canlyniad hynny fyddai sicrhau'r un lefel o wasanaeth yn ddaearyddol.

### Safonau cadw cofnodion

Derbyniwyd nifer o sylwadau oedd yn cefnogi'r angen i sefydliadau gadw cofnodion, a hynny er mwyn sicrhau'r gallu i fonitro ac i archwilio cydymffurfiaeth â'r safonau eraill. Er hynny, roedd rhai o'r farn bod elfennau o'r gofynion yn fiwrocraidaidd ar gyfer sefydliadau sydd yn gweinyddu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg, gydag eraill o'r farn nad yw cadw cofnodion yn weithgaredd effeithiol er mwyn gwella ansawdd ac ystod gwasanaethau cyfrwng Gymraeg.

### Safonau Hybu

Derbyniwyd tystiolaeth oedd o'r farn y dylid sicrhau bod safonau hybu yn cael eu gwneud yn benodol gymwys i Gymdeithasau Tai, a hynny ar y sail eu bod yn cyflawni swyddogaeth bwysig i nifer fawr iawn o bobl, gan gynnwys nifer o'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas. O'r herwydd, roeddent yn ystyried bod ganddynt rôl amlwg o ran hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Aeth ymatebwr arall ymlaen i nodi ei syndod nad oes mwy o gyrff yn ddarostyngedig i'r safonau hybu, gan gynnwys Darparwyr Tai Cymdeithasol; cyrff sydd â chyswllt agos â'r gymuned ac sydd â dylanwad grymus yn lleol.

## Atodiad B – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir rhestr o'r person(au) perthnasol y cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy, y Panel Cynghori ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

### Personau perthnasol

- Aelwyd Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Aelwyd Cyf.)
- Bro Myrddin Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Bro Myrddin Cyf.)
- Bron Afon Community Housing Ltd (Tai Cymunedol Bron Afon Cyf.)
- Cadwyn Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf.)
- Cardiff Community Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd)
- NPT Homes Ltd (Cartrefi CNPT Cyf)
- Cartrefi Conwy Cyf
- Merthyr Valleys Homes Ltd (Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyf)
- Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf
- RCT Homes Ltd (Cartrefi RCT Cyf)
- Coastal Housing Group Ltd (Grŵp Tai Coastal Cyf)
- Mid-Wales Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf)
- Cymdeithas Tai Cantref Cyf
- North Wales Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Gogledd Cymru Cyf)
- Linc-Cymru Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyf)
- Merthyr Tydfil Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Cyf)
- Monmouthshire Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Sir Fynwy Cyf)
- Cynon Taf Community Housing Group (Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf Cyf)
- Family Housing Association (Wales) Ltd (Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf)
- First Choice Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf)
- Grŵp Cynefin
- Grŵp Gwalia Cyf
- Hafan Cymru
- Hendre Group (Grŵp Hendre)
- Melin Homes Ltd (Cartrefi Melin Cyf)
- Newport City Homes Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Cartrefi Dinas Casnewydd Cyf)
- Pembrokeshire Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Sir Benfro Cyf)
- Pennaf Ltd (Pennaf Cyf)
- Rhondda Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Rhondda Cyf)
- Seren Group Ltd (Grŵp Seren Cyf)
- Taff Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Taf Cyf)
- Tai Ceredigion Cyf
- Valleys to Coast Housing Ltd (Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyf)
- Tai Calon Community Housing Association Ltd (Tai Cymunedol Tai Calon Cyf)
- The Cadarn Housing Group Ltd
- United Welsh Housing
- Wales & West Housing Association Ltd (Cymdeithas Tai Wales & West Cyf)

**Aelodau'r cyhoedd**

- Aaron Jones
- Angharad Rhys
- Aled Cottle
- Aled Edwards
- Aled Lewis Evans
- Aled Powell
- Alfred S Nathan
- Alison Cummins
- Alwyn Gruffydd
- Andrew Shurey
- Anna Williams
- Annette Williams
- Anwen Evans
- Bedwyr Griffiths
- Ben Screen
- Bethan Rowlands
- Bethan Williams
- Bethan Wyn Jones
- Bob Gaffey
- Brian Dafis
- Bryn Moseley
- Carl Morris
- Carys Evans
- Catrin Stevens
- Cathryn Griffith
- Celt Roberts
- Cen Llwyd
- Ceri Owen
- Ciaran Spooner
- Colin Nosworthy
- Connor Keyes
- Curon Wyn Davies
- Cynghorydd Jeff Smith
- Dafydd Chilton
- Dafydd Frayling
- Dafydd Williams
- David Davies
- David Jones
- David Williams
- Delyth Wotherspoon
- Dorothy Williams
- Dr T H Thomas
- Eifion Glyn
- Eirian Conlon
- Elin Mair
- Enfys Jones
- Eurfyl Lewis
- Euros Jones
- Evie Wyn Jones
- Gareth Clubb
- Gareth Dobson
- Geraint Lovgreen
- Geraint Parri
- Gethin Kurtis Sugar
- Glenn Wall
- Goronwy Evans
- Gwen Bevan
- Gwydion Davies
- Gwyn Morris
- Huw Roberts
- Hynek Janoušek
- Iago ap Steffan
- Iago Sion
- Ifan Alun Puw
- Ifor Glyn Efans
- Iwan Standley
- Iwan Williams
- Jackie Owens
- James Merchant
- Jamie Bevan
- John Christopher Williams
- Jon Hicks
- Jonathan Brown
- Judith Bartley
- Judith Griffith
- Julia Burns
- Kevin Williams
- Lauren Evans
- Lisabeth Miles
- Liz Saville Roberts
- Lleucu Roberts
- Llinos Parri
- Mair Nutting
- Manon Elin
- Manon James
- Manon Owen
- Mari Evans
- Mari Gwilym
- Mary Williams
- Meic Haines
- Meinir James
- Meirion Powell
- Menna Machreth

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (Darparwyr Tai Cymdeithasol)

- Miriam Collard
- Mr K Jones
- Myrddin Williams
- Nest Efans
- Neville Evans
- Nia Lloyd
- Nia Wyn Jones
- Osian Rhys
- Paul Pritchard
- Petroc ap Seisyllt
- Randal Isaac
- Richard Vale
- Robot Idris
- Ruth Evans
- Ruth Williams
- Rhian Jones
- Rhiannon Mair
- Rhisiart Morgan
- Rhobet Williams
- Rhodri Glyn
- Rhys Llwyd
- Sandra McKenzie
- Sarah Parry
- Selwyn Lloyd - Jones
- Siân Cwper
- Siân Roberts
- Sion Morris
- Sion Pennant
- Siwan Evans
- Steffan Bryn
- Stephen Taylor
- Stephen Turner
- Stephen Vaughan Thomas
- Susan Jeffries
- Tegwyn Jones
- Tim Barrell
- Tudor Williams
- Thomas Gareth Jones
- Thomas Shaw
- Wendy Lewis
- William Schleising

### Sefydliadau/Mudiadau

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Dyfodol i'r Iaith

### Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper
- Dr Heledd Iago
- Meinir Davies
- Nick Speed